



Newyddion Sir Gâr



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu newyddion a gwybodaeth am Sir Gaerfyrddin ar eich cyfer chi




Dweud eich dweud ar ofal plant yn Sir Gaerfyrddin – cymerwch ran yn ein harolwg. Gweler tud 12



Carnifal Llanelli - 18 Tach



Goryuddaith Ceirw Caerfyrddin - 19 Tach



Bydd y Nadolig yn Sir Gaerfyrddin yn gyfnod cyffrous iawn eleni gan fod llond sach o adloniant a digwyddiadau Nadoligaidd ar y gweill ledled y sir!

I ddechrau'r dathliadau, cynhelir seremoni cynnau'r goleuadau a Charnifal Nadolig Llanelli lle bydd fflotiau traddodiadol, tân gwyllt, ffair bleser a diddanwyr stryd yn rhan o'r adloniant ar gyfer noson fwyaf y flwyddyn yn y dref. Cynhelir y digwyddiad nos Wener, 18 Tachwedd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Tref Llanelli a Chyngor Gwledig Llanelli yn ogystal â Bord Gron Llanelli a noddir y digwyddiad eleni gan gwmni Dŵr Cymru.

Bydd gwybodaeth am y digwyddiadau a manylion ynghylch cau ffyrdd yn cael eu cyhoeddi ar newyddion.sirgar.gov.uk.

Bydd Caerfyrddin yn croesawu Siôn Corn a'i geirw ddydd Sadwrn, 19 Tachwedd a chynhelir ffair grefftau yn Rhodfa'r Santes Catrin o 27 Tachwedd tan Noswyl Nadolig.

Bydd y Nadolig yn dechrau yn swyddogol yn Llanymddyfri nos Wener, 25 Tachwedd drwy gynnal seremoni draddodiadol cynnau'r goleuadau Nadolig gael ei chynnal a bydd Ffair Nadolig Dinefwr, Llandeilo yn cael ei chynnal dros benwythnos 26-27 Tachwedd.

i I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y digwyddiadau hyn a digwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnal yn y sir, ewch i www.darganfodsirgar.com

Cadwch yn ddiogel ac yn iach y gaeaf hwn

Gan fod y gaeaf wrth y drws, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i sicrhau bod pobl ledled Sir Gaerfyrddin yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Mae cyngor ar gael gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghylch cadw'n iach, yn cynnwys gwybodaeth am bigiadau fflw a gwneud dewisiadau doeth pan fo angen gofal iechyd arnoch. Bydd gwirfoddolwyr yn dal i ddarparu gwasanaethau fel Pryd ar Glud a gofynnir i bobl alw gyda'u cymdogion, yn enwedig os ydynt yn oedrannus neu'n fregus.

Bydd staff Cyngor Sir Gaerfyrddin yn graeanu'r ffyrdd wrth i'r tymheredd ddisgyn ac yn rhoi cyngor am ddiogelwch ffyrdd. Bydd gwybodaeth am unrhyw darfu o achos tywydd gwael yn cael ei chyhoeddi ar wefanau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd Heddlu Dyfed Powys, ynghyd â phartneriaid yn cynnwys y Cyngor Sir a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn cynnal mentrau megis Ymgyrch Bang adeg Calan Gaeaf a Guto Ffowc, a Rhowch y Garden Goch i Yfed a Gyrru.

i I gael rhagor o wybodaeth neu i gael rhybuddion, ewch i www.i-Local.co.uk

CWMNI PANTOMEIM HOFF DE CYMRU AM 23 MLYNEDD
The Friendship Theatre Group Yn Cyflwyno...
Dydd Iau 12fed Ionawr, 2017 - Dydd Sul 29ain Ionawr, 2017
TOCYNNAU AR WERTH NAWR

Y Ffwrnes Theatre
 Box office: 0845 226 3510
www.carmarthenshiretheatres.co.uk

Cyfarwyddwr - Dean Verbeck | MD - Robert Jenkins
 Coreograffydd - Melanie SullivanOver
 Mac dros £165,000 i elusennau lleol hyd yn hyn

ROBINSON CRUSOE
 & THE CARIBBEAN PIRATES
 Written by Alan P. Frayn

ALAN WILLIAMS FEL MARGARITA JUICILITA
 HLANELLI'S OWN DENNY TWP

Newyddion o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol



Croeso i rifyn y gaeaf o Newyddion Sir Gâr. Rydym yn gobeithio y bydd yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.

Mae'n cynnwys erthyglau ynghylch amrywiol faterion gan ein holl bartneriaid ynghyd ag erthyglau arbennig am ddiogelwch cymunedol, newidiadau i gasgliadau sbwriel, dysgu, iechyd ac ymgynghoriad y Cyngor Sir ynghylch y gyllideb. Hefyd mae gwybodaeth am garnifalau a digwyddiadau yn ogystal â

chyngor ac argymhellion ynghylch cael Nadolig hapus a diogel.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi e-fersiwn o Newyddion Sir Gâr a fydd yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn a hynny yn lle dau o'r copïau caled sy'n cael eu dosbarthu i'ch drws. Bydd y ddau rifyn arall yn parhau i fod yn gopïau caled.

Rydym yn gobeithio y bydd pobl yn mwynhau'r e-format newydd ac yn ei ystyried yn hwylus. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth.

Gobeithio y cewch chi i gyd Nadolig Llawen Iawn a Blwyddyn Newydd Dda!



I dderbyn e-fersiwn o Newyddion Sir Gâr, cofrestrwch ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

www.ysirgaragarem.co.uk



Cyngor Sir Caerfyrddin

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Chyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru

Llywodraeth Cymru

Heddlu Dyfed-Powys

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Coleg Sir Gâr

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen Newyddion Sir Gâr. Os hoffech wneud sylw ynghylch unrhyw agwedd ar y cyhoeddiad neu os hoffech gyfrannu erthygl ar gyfer tudalennau 'eich cymuned,' cysylltwch â:

Tîm Marchnata a'r Cyfryngau

Cyngor Sir Caerfyrddin,

Neuadd y Sir Caerfyrddin SA311 JP

E-bost: newyddionsirgar@sirgar.gov.uk

Ffôn 01267 224665

Y we: www.sirgar.gov.uk

Cedwir hawl y ffotograffau; ni ellir atgynhyrchu'r ffotograffau heb gael caniatâd ysgrifenedig o'r cyfeiriad uchod.

Croeso Cynnes yn eich disgwyl



 **colegsirgâr**

Mae croeso cynnes yn aros amdanoch ym mwyty hyfforddi Myrddin, Pibwrlwyd

Oeddech chi'n gwybod eich bod yn gallu bwyta allan ym mwyty hyfforddi Coleg Sir Gâr yng Nghaerfyrddin, llogi'r arena geffylau ym Mhibwrlwyd a chael newid gwedd anlwfeddygol neu steil gwallt newydd ar gampws y Graig, Llanelli?

Mae Coleg Sir Gâr yn cynnig mwy na chyfleoedd addysgol yn unig.

Yn salonau gwallt a harddwch y coleg gall y cyhoedd fwynhau unrhyw beth o dorri gwallt yn sych i gywiro lliw gwallt wrth i fyfyrwyr hyfforddi at weithio yn y diwydiant. Cynigir y triniaethau hyn am brisiau

cystadleuol gan fod angen y cyhoedd er mwyn cefnogi datblygiad y myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr hyn yn cynnwys y dysgwyr coginio proffesiynol a lletygarwch sy'n rhedeg bwyty hyfforddi Myrddin ac sydd yn cynnig coginio table d'hôte yn ogystal â digwyddiadau arbennig megis te prynhawn drwy gydol y flwyddyn.



I wybod mwy am logi cyfleusterau, bwyty Myrddin a'r salonau anfonwch e-bost i ymholiadau@colegsirgar.ac.uk



Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae
Family Information, Childcare and Play

Byddwch yn Warchodwr Plant cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin

01267 246555

www.ggd.sirgar.gov.uk



Dathlwch flwyddyn y chwedlau 2017

Mae Sir Gaerfyrddin yn gwneud cynlluniau i ddathlu Blwyddyn Chwedlau Croeso Cymru yn 2017.

Mae tîm marchnata a'r cyfryngau y Cyngor wrthi'n cynllunio amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyffrous ledled y sir a De-orllewin Cymru yn seiliedig ar straeon a chymeriadau chwedlonol.

Mae map digidol 3D o'r rhanbarth wedi'i gynnwys yn y cynlluniau er mwyn dangos ein nodweddion diwylliannol hynod yn ogystal ag ymgyrch cestyll a gerddi er mwyn ceisio denu'r twristiaid niferus sy'n cyrraedd y sir ar fysiau neu longau moethus. Mae 'Blwyddyn Chwedlau' 2017 yn un o gyfres o

flynyddoedd â thema o dan arweiniad Croeso Cymru i hyrwyddo'r hyn sydd gan ein gwlad i'w gynnig i dwristiaid. Mae 'Blwyddyn Antur' 2016 yn canolbwyntio ar y farchnad gwyliau antur sy'n dod yn fwy poblogaidd ac yn hyrwyddo anturiaethau cyffrous megis cyfeiriannu. Bydd 2018 yn 'Flwyddyn y Môr'.

Dywedodd y Cyngorydd Meryl Gravell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio: "Mae'r diwydiant Twristiaeth yn werth dros £355 miliwn i economi Sir Gaerfyrddin. Mae'n hanfodol ein bod ni'n parhau i feddwl am ffyrdd blaengar i gadw'r diwydiant yn fywiog."

Myfyrwyr Dylunio Theatr UWTSD yn dod â chrocodeilod trachwantus Roald Dahl yn fyw



Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r cwrs BA(Anrh) BA Dylunio a Chynhyrchu Theatr sydd wedi'i leoli ar gampws y Brifysgol yng Nghaerfyrddin, cysylltwch gyda Stacey-Jo Atkinson drwy e-bostio s.atkinson@uwt.ac.uk neu ewch i dudalennau'r cwrs ar Twitter ac Instagram UWTSD_perf_arts

Cafodd myfyrwyr cwrs BA Dylunio a Chynhyrchu Theatr o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin y profiad anhygoel o fod yn rhan o ddathliadau 'Dinas yr Annisgwyl' Roald Dahl y penwythnos diwethaf - digwyddiad i ddathlu canmlwyddiant Roald Dahl yng Nghaerdydd.

"Mae hwn wedi bod yn brosiect gwych i'n myfyrwyr a'n graddedigion i fod yn rhan ohono, dwi mor falch o'u gwaith a'u

hymrwymiad," meddai darlithydd y cwrs BA Dylunio a Chynhyrchu Theatr, Stacey-Jo Atkinson.

"Roedd yn fraint fawr i ni fod yn rhan o ddigwyddiad mor eiconig ac y mae'r profiad mae ein myfyrwyr a'n graddedigion wedi ennill wedi bod yn amhrisiadwy." Fe ddaeth y myfyrwyr 'nol i Gaerfyrddin dros eu gwyliau haf i weithio yn y gweithdy golygfaol yn ystod mis Awst i gynllunio ac adeiladu pyped crocodeil newydd ar gyfer y digwyddiad canmlwyddiant, o dan

gyfarwyddyd y darlithydd Adeiladwaith Golygfaol a'r rheolwr cynhyrchu, Dave Atkinson a'r wneuthurwraig pypedau proffesiynol, Jess Jones.

Yn ogystal â gweithio ar y crocodeil - oedd yn eistedd yn falch ar y wal Castell Caerdydd - buodd dau o fyfyrwyr cyfredol, Hadley Taylor a Katie King ar leoliad yng Nghaerdydd fel rhan o'r prosiect. Gweithiodd rai o raddedigion y Brifysgol ar y digwyddiad hefyd.



Mae grwpiau cymunedol yn cael eu hannog i drefnu digwyddiadau yn eu hardaloedd lleol er mwyn dathlu Blwyddyn Chwedlau. Mae'n bosibl y bydd cyllid ar gael i gefnogi'r digwyddiadau hyn drwy Gynllun Arian i Bawb y Loteri Fawr. I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch Biglotteryfundwales@biglotteryfund.org.uk neu ffoniwch 0300 123 0735.

Fferyllfa yn gallu'ch gweld yn gyflym

Y gaeaf hwn, mae trigolion Sir Gâr yn cael eu hatgoffa y gall fferyllfeydd lleol eu helpu â salwch cyffredin megis anwyd, yn ogystal â rhoi cyngor ar feddyginiaeth, heb yr angen am apwyntiad. Gall ymweliad â fferyllfa dawelu meddwl ac yn aml mae hyn yn gynt nag ymweld â Meddyg Teulu neu ysbyty. Mae rhai fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaethau ychwanegol megis gwasanaeth iechyd rhywiol a chefnogaeth i roi'r gorau i ysmegu.

Mae Fferyllfa Porth Tywyn ar Heol yr Orsaf, Fferyllfa Well ar Heol Rhosmaen, Llandeilo, a Fferyllfa Medical Hall a Fferyllfa San Clêr yn San Clêr hefyd yn cynnig y gwasanaeth Brysbennu a Thrin newydd ar gyfer mân anafiadau. Mae hyn yn cynnwys triniaeth ar gyfer mân grafiadau, ysgiadau, gofal llygaid megis tywod yn y llygad, a thynnu sbinteri o'r croen.

Os ydych chi anaf neu salwch yn rhy ddifrifol i'w drin yn y fferyllfa, gall y fferyllfeydd roi cyngor i chi ar ble i fynd am driniaeth.



Bydd oriau agor fferyllfeydd dros y Nadolig yn cael eu hysbysebu rhai wythnosau o flaen llaw. Ewch i www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/tu-dalen/56476

Gradd dosbarth cyntaf Carwyn

Mae Carwyn Thomas, myfyriwr a raddiodd mewn cyfrifiadura yng Ngholeg Sir Gâr, wedi canmol ei diwtoriaid am yr addysg brifysgol a astudiodd yn y coleg lle enillodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf.

Ymunodd Carwyn yn wreiddiol â chwrs llawn amser ar ôl ysgol, gan ddewis cwrs galwedigaethol sef diploma cenedlaethol lefel tri a gaiff ei adnabod bellach fel diploma estynedig.

Meddai Denise Hudson, darlithydd cyfrifiadura yng Ngholeg Sir Gâr, "Mae Carwyn yn enghraifft o ddilyniant cyson o adael Ysgol Gyfun y Strade i ennill ei radd gyda ni ac mae wedi bod yn fyfyrwr gwych trwy gydol yr amser. Mae'r coleg yn cynnig y radd mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ac roeddem wrth ein boddau o weld Carwyn yn rhan o'n seremoni raddio eleni."



Ewch amdani: Dewch o hyd i'ch cwrs gradd yn y coleg 01554 748179 derbyniadau@colegsgirgar.ac.uk



Carwyn Thomas

GWERTHU NEWYDD / AIL LAW • PROFION MOT • GWASANAETHU • CERBYDAU MASNACHOL • RHANNAU GWIRIONEDDOL

Castell Newydd Emlyn
01239 547283

Caerfyrddin
01267 853603

Llanelli
01554 528718

Aberystwyth
01970 577562

Ceredigion
01239 621222

Llanybydder
01570 480058

Arberth
01834 860362

Cawdor



ISUZU
THE PICK-UP
PROFESSIONALS



www.cawdorcars.co.uk

Eich Cymuned

Canolfan S4C Dyluniadau'r Egin



Yn ystod yr haf, fe ddatgelodd Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ddyluniadau diweddaraf Canolfan S4C Yr Egin - datblygiad a fydd yn gartref i bencadlys S4C yn ogystal â chlwestwr o gwmnïau a sefydliadau o'r diwydiannau creadigol a digidol.

Mae Canolfan S4C Yr Egin yn ddatblygiad arloesol a fydd yn agor yn ystod chwarter cyntaf 2018 – datblygiad sydd â gweledigaeth gynhyrfus a fydd yn siapio a thrawsnewid y diwydiannau creadigol yn Ne Orllewin Cymru a thu hwnt.

Bydd hefyd cyfleoedd niferus i bobl leol fwynhau'r adeilad a'i adnoddau amrywiol - caffi braf, llwyfannau perfformio amrywiol ac awditoriwm a fydd yn cynnig ystod o ddigwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.

“Bydd ardrawiad economaidd

Canolfan S4C Yr Egin yn arwyddocaol gan gyfrannu dros £11m i'r economi leol yn flynyddol,” meddai Gwilym Dyfri Jones, Pro Is-Ganghellor Cysylltiol Y Drindod Dewi Sant.

“Bydd Canolfan S4C Yr Egin yn denu sector o werth uchel, gyda chyfleoedd am swyddi arbenigol sylweddol a chyfleoedd newydd yn Ninas Ranbarth Bae Abertawe,” atega.

Dywed Ian Jones, Prif Weithredwr S4C: “Ar ôl misoedd lawer o waith caled, mae cynllun Canolfan S4C yr Egin yn dod yn fyw o flaen ein llygaid ac mae'n hynod o gyffrous i weld y gwaith yn symud ymlaen yn y fath fodd. Gyda'r broses gynllunio ar y gweill, a'r penseiri'n cwblhau eu gwaith cychwynnol, mae'n cynlluniau i greu pencadlys newydd i S4C yng Nghaerfyrddin yn symud cam mawr yn nes.

Shane yn mentro i'r dŵr



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Bu cyn seren rygbi Cymru, Shane Williams, yn defnyddio'r cyfleusterau a'r arbenigedd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, i hyfforddi ar gyfer IRONMAN Wales a gynhaliwyd yn Ninbych y Pysgod ym mis Medi.

Er mwyn gwella'i dechneg nofio'r her IRONMAN, mae Shane wedi bod yn gweithio gyda Geraint Forster, Cyfarwyddwr Rhaglen BSc Ffitrwydd Awyr Agored yn y Drindod Dewi Sant. Mae Shane hefyd wedi gweithio gyda Dr Peter Herbert, ffisiolegydd yn y Drindod Dewi Sant, i gwblhau prawf V02 Max yn Labordy Perfformiad Uchel y Brifysgol.

Yn siarad cyn y digwyddiad, meddai Shane: “Rydw i wedi elwa'n sylweddol o'r gwaith gyda Geraint a Pete yn y Drindod Dewi Sant. Mae'r gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud wedi bod o help mawr i mi a dyna pam rwy'n cadw dod nôl am ragor o hyfforddiant. Pan oeddwn i'n chwarae rygbi roedden ni'n gwneud llawer o waith yn y labordy ac ar y melinau traed, ond llai o waith yn y dŵr, felly doeddwn i ddim yn teimlo'n hollol gyfforddus yn nofio. Yn ogystal â gwella fy nhechneg yn

y dŵr, mae'r hyfforddiant gyda Geraint wedi gweithio ar lefel seicolegol hefyd; rwy'n gwybod fy mod i'n nofio'n gryfach nawr a bydd hyn yn fy helpu'n fawr.”

Triathlon yw un o'r chwaraeon sy'n tyfu cyflymaf yn y DU ac mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi ymateb i boblogrwydd y gamp - nid yn unig drwy ddatblygu cyrsiau gradd sy'n canolbwyntio ar driathlon fel y BSc Ffitrwydd Awyr Agored - ond hefyd trwy fod yn brif noddwr Triathlon Abertawe, a gynhelir gan Activity Wales Events.

i

Os oes gennych ddiddordeb mewn Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored ac os hoffech ddysgu mwy am y cyrsiau gradd a gynigir gan Y Drindod Dewi Sant, cysylltwch â Geraint Forster yn uniongyrchol drwy e-bostio g.forster@uwtsd.ac.uk

Hwyl a sbri yn lle chwarae newydd Parc Howard

Mae lle chwarae newydd i blant iau ym Mharc Howard, Llanelli yn plesio'n fawr.

Mae plant hyd at 12 oed yn mwynhau'r cyfleusterau newydd sydd ar themar goedwig. Mae sleidiau newydd, fframiau dringo, twnelau a phontydd siglo i gyd yn rhan o'r lle chwarae newydd. Yn ogystal mae yno dŵr dewin a siop er mwyn annog chwarae llawn dychymyg. Yn ogystal, bwriedir adnewyddu'r offer chwarae presennol ar lefel is y lle chwarae ynghyd â gosod siglenni newydd yn lle'r hen rai.

Lleolir y lle chwarae ger plasty hanesyddol Parc Howard y mae hefyd bwriad i fuddsoddi ynddo fel rhan o 'brif gynllun' ac sy'n cynnwys gwella'r lle chwarae ar gyfer plant hyn yn ogystal â gwella'r cyfleusterau sydd ar gael i ymwelwyr a denu mwy o bobl i fwynhau'r ardal.



Dysgu yn SirGâr

Agoriad swyddogol Ysgol Bro Dinefwr



Mae Ysgol Bro Dinefwr, yr ysgol newydd £30 miliwn yn Ffairfach, wedi cael ei hagor yn swyddogol.

Cynhaliwyd seremoni yn fuan ar ôl dechrau'r tymor newydd, gyda gwsteion arbennig yn cael eu gwahodd i dystio i ddadlennu plac a chyflwyno allwedd seremonïol a thystysgrif 'Diogelu Drwy Ddylunio' gan y contractwyr Bouygues UK.

Mae Bro Dinefwr yn darparu ar gyfer 1,200 o ddisgyblion gan gynnwys chweched dosbarth ar gyfer 200 o ddisgyblion a darpariaeth arbenigol â 30 lle i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n darparu ystafelloedd a chyfleusterau o'r radd flaenaf, a chysiau galwedigaethol o ansawdd uchel gydag

ysgolion eraill yn ardal Dinefwr a Choleg Sir Gâr. Cafodd yr ysgol ddwyieithog categori 2B ei chyflawni gan y Cyngor trwy ei Raglen Moderneiddio Addysg, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'n rhan o fuddsoddiad o oddeutu £70 miliwn ar y cyfan mewn ysgolion yn ardal Dinefwr.



Cewch wybod mwy a gweld yr ysgol oddi uchod mewn deunydd syfrdanol o'r awyr yn www.sirgar.llyw.cymru

Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr

Gyda thymor cyntaf y flwyddyn academiaidd newydd yn ei hanterth, dyma gyfle i chi gwrrd â Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Daniel Rowbotham, sy'n esbonio am fenter wych i sicrhau diogelwch y myfyrwyr.

"Helo yno! Fy enw i yw Dan Rowbotham, ac ar gyfer y flwyddyn hon fi yw Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Myfyrwyr ond rwy hefyd yn cael fy adnabod o gwmpas y campws fel 'Dan Pres'. Graddiais o gampws Caerfyrddin dros yr haf ac rwy wedi bod yn fy swydd ers diwedd mis Mehefin.

"Mae bywyd myfyrwyr yng Nghaerfyrddin yn braf, gyda llawer o amser yn cael ei dreulio yn Undeb

y Myfyrwyr, ond rydym hefyd yn cefnogi llawer o fusnesau lleol yn y dref, gyda llawer o'r tafarndai a bariâu yn boblogaidd iawn gyda'r myfyrwyr!

"I lawer, mae noson dda yn dod i ben gyda sglodion cawslyd a chwerthin am symudiadau dawns erchyll cyn galw taci a theithio 'nôl lan i'r campws.

"Eleni, mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gyda chwmni taci lleol JRV Cars, i sicrhau bod myfyrwyr yn cyrraedd adref yn ddiogel ar ôl noson allan. Drwy'r bartneriaeth 'cynllun taci diogel', bydd myfyrwyr yn gallu galw'r cwmni i fynd â nhw gartref - ac os am ryw reswm nad yw'r myfyriwr yn gallu talu ar ddiwedd y daith - bydd manylion yr unigolyn yn cael eu



cofnodi gyda'r gost yn cael ei dalu yn ystod yr wythnos.

"Dyma enghraifft wych o fusnes lleol, Undeb y Myfyrwyr a'r Adran Gwasanaethau Myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod eu hamser yn y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

Safon Uwch o'r gorau



Anthony Clarke, myfyriwr Safon Uwch o Goleg Sir Gâr sy'n astudio daeareg ym mhryfysgol St Andrews yn derbyn ei ganlyniadau oddi wrth y darlithydd Charles Freitas

Eleni enillodd Coleg Sir Gâr set ragorol o ganlyniadau Safon Uwch.

Roedd canran y graddau A* - E yn arbennig o uchel unwaith eto sef 98%, gyda 22 allan o 29 o bynciau'n cyflawni canran lwyddo o 100%.

Enillodd myfyrwyr ar y rhaglen Safon Uwch, Diwylliant Academiaidd Rhagorol (ACE) ganlyniadau neilltuol gyda thri allan o bedwar o ymgeiswyr yn ennill naill ai gradd A* neu A, gan eu galluogi i fynd i'w prifysgol dewis cyntaf, gan gynnwys y rheiny o fewn Grŵp 30 Sutton.

Gall Coleg Sir Gâr eich rhoi chi ar y llwyfan



Os mai perfformio sy'n mynd â'ch bryd, yna byddai'n werth i chi ymweld â thîm diwydiannau creadigol Coleg Sir Gâr.

Mae darpariaeth diwydiannau creadigol y coleg yn cynnwys dawns, y celfyddydau perfformio, drama, technoleg cerdd, cynhyrchu yn y cyfryngau creadigol a chelfyddydau cynhyrchu theatr.

Mae'r tîm yn gweithio gyda llawer o sefydliadau allanol ar gampws y Graig yn Llanelli, gan weithio gyda pherfformwyr a chwmnïau sy'n torri tir newydd er mwyn ehangu sgiliau'r myfyrwyr.



Rhowch eich doniau dan y sbotlamp ac ewch i noson agored neu ffonwch 01554 748179



PARÊD CEIRW LLANELLI - DYDD SADWRN, 3YDD RHAGFYR 2016

Mae 'Ymlaen Llanelli', yr Ardal Gwella Busnes y dref, yn hapus i gyhoeddi'r parêd boblogaidd Ceirw Cairngorn i Llanelli ar ddydd Sadwrn, 3ydd Rhagfyr.

Bydd chwe carw yn dynnu sled Siôn Corn drwy'r dref o'r Ddatblygiad Eastgate i Spring Gardens, yn ddechrau am 1yp. Bydd adloniant stryd yn y dref yn ogystal â reidiau plant ac adloniant ar y llwyfan yn Spring Gardens drwy gydol y prynhawn.

Dewch draw am yr ŵyl, dydd llawn hwyl i'r teulu!

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar y dudalen Ymlaen Llanelli Facebook neu ffonwch 07803 503972.



YMLAEN
LLANELLI
PROSPER TOGETHER

Newidiadau i'r casgliadau b

Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r casgliadau biniau yn Sir Gaerfyrddin ymlaen ac rydym wedi nodi'r cwestiynau a ofynnir amlaf.

o'r 31
HYDREF

Pam mae fy niwrnod casglu yn newid?

Mae ein cerbydau casglu sbwriel yn heneiddio ac mae angen cael rhai newydd yn eu lle er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid heb unrhyw darfu. Ar yr un pryd, rydym wedi adolygu'r llwybrau casglu ar hyd a lled y sir i'w gwneud yn fwy effeithlon. Trwy leihau nifer y cerbydau, rydym yn arbed arian trwy leihau costau cynnal a chadw a thanwydd ac yn gwella ôl troed carbon y Cyngor.



Pam mae fy amser casglu wedi newid?

Mae'r llwybrau casglu wedi cael eu diwygio ac mae hyn yn golygu y gallai amser eich casgliad newid o ganlyniad i hynny. Hyd yn oed os nad yw eich diwrnod wedi newid, gallai'r amser newid. Ni allwn fyth warantu y bydd eich sbwriel yn cael ei gasglu'r un amser bob wythnos, ac rydym yn cynghori pobl i roi eu biniau allan cyn 6am ar ddiwrnod eu casgliad (ond nid cyn 6pm y noson gynt).



Pam rydych wedi newid y cerbydau ac a ydy fy magiau/bwyd yn cael eu hailgylchu o hyd?

Roedd y cerbydau yn heneiddio ac roedd angen cael rhai newydd yn eu lle er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid heb unrhyw darfu. Mae gan y cerbydau newydd adran seliedig ar wahân yn y blaen ar gyfer gwastraff bwyd ac adran ar gyfer bagiau glas/du yn y cefn. Bydd y gwastraff bwyd yn dal i gael ei gompostio a bydd y bagiau glas yn cael eu didoli at ddibenion ailgylchu yn Nant-y-caws o hyd.



Pam nad ydw i'n cael bagiau ar gyfer fy min bwyd mwyach?

Roedd eich eiddo yn arfer cael ei wasanaethu (cyn 31 Hydref) gan gerbyd bach ac roedd y criwiau'n cario'r gwastraff bwyd yn uniongyrchol i mewn i lori cefn agored, yn y bagiau a ddarparwyd (roedd y rhain yn gryfach na'r bagiau arferol ar gyfer biniau bwyd). Bellach bydd eich eiddo'n cael ei wasanaethu gan un o'n mathau newydd o gerbydau sbwriel, sy'n golygu y bydd eich bin bwyd yn cael ei wacáu'n uniongyrchol i adran seliedig ar y lori (felly nid oes angen cyflenwi'r bagiau cryfach). Os hoffech barhau i ddefnyddio'r bagiau, gellir prynu'r rhain o nifer o siopau lleol a gwerthwyr ar-lein. Fel arall, gallwch ddefnyddio papur newydd/papur cegin i leinio eich bin.



Pam mae rhai pobl yn cael bagiau tra bo eraill ddim?

Mae rhai aelwydydd yn cael eu gwasanaethu gan gerbyd llai ac yn cael cyflenwad o fagiau sy'n ddigon cryf i gael eu cario'n uniongyrchol gan y criwiau i mewn i lori cefn agored (mae'r bagiau hyn yn gostus ac ond yn cael eu darparu lle bônt yn hollol angenrheidiol am resymau gweithredol). Caiff aelwydydd eraill eu gwasanaethu gan gerbydau sbwriel lle mae'r biniau'n cael eu gwacáu'n uniongyrchol i'r lori.



Nid yw fy miniau/bagiau wedi cael eu casglu oherwydd anghofiaid fod y diwrnod wedi newid, beth ddylwn ni ei wneud?

Ewch i nôl eich bagiau/bin bwyd o'r man casglu a'u cadw tan eich diwrnod casglu cywir nesaf. Sylwch ni fydd y cyfyngiad o bedwar bag du yn berthnasol yn ystod mis Tachwedd. Neu, gallwch chi fynd â'ch bagiau glas/du i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref agosaf.



Pam rydych wedi newid y cerbydau ac a ydy fy magiau/bwyd yn cael eu hailgylchu o hyd?

Roedd y cerbydau yn heneiddio ac roedd angen cael rhai newydd yn eu lle er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid heb unrhyw darfu. Mae gan y cerbydau newydd adran seliedig ar wahân yn y blaen ar gyfer gwastraff bwyd ac adran ar gyfer bagiau glas/du yn y cefn. Bydd y gwastraff bwyd yn dal i gael ei gompostio a bydd y bagiau glas yn cael eu didoli at ddibenion ailgylchu yn Nant-y-caws o hyd.

Rwyf wedi cael pythefnos o gasgliadau bagiau glas - beth ddylwn i ei wneud â'm bagiau du?

Nid yw'r cyfyngiad o bedwar bag du yn berthnasol yn ystod mis Tachwedd felly gallwch roi eich bagiau du i gyd allan ar eich diwrnod casglu bagiau du nesaf. Os nad ydych yn gallu storio'r bagiau, gallwch fynd â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref agosaf. Peidiwch â rhoi'r bagiau allan yn ystod wythnos casglu bagiau glas oherwydd ni fyddant yn cael eu casglu.



Rwyf wedi cael pythefnos o gasgliadau bagiau du - beth ddylwn i ei wneud â'm bagiau glas?

Cadwch eich bagiau glas tan eich casgliad bagiau glas nesaf. Os nad ydych yn gallu storio'r bagiau, gallwch fynd â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref agosaf. Peidiwch â rhoi'r bagiau allan yn ystod wythnos casglu bagiau du oherwydd ni fyddant yn cael eu casglu.



Dydw i ddim am unrhyw newidiadau, maen nhw'n fy nrysu.

Os ydych yn 50 oed neu'n hŷn ac os oes angen cymorth neu gyngor arnoch o ran ailgylchu, mae'n bosibl y gall Age Cymru Sir Gâr eich helpu. Gall Age Cymru Sir Gâr roi cyngor ichi am yr hyn i'w roi yn eich bagiau glas a'ch helpu i ailgylchu gwydr ac eitemau bach eraill fel bylbiau golau a batris. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan www.agecymru.org.uk/sirgar, e-bostiwch info@agecymrusirgar.org.uk neu ffoniwch 01554 784 080.



iniau - cwestiynau cyffredin

Pam mae'r casgliad gwastraff gardd presennol yn dod i ben ddiwedd mis Hydref? Roedd y cyngor yn casglu gwastraff gardd mewn cerbydau lle roedd yn cael ei gymysgu â gwastraff bwyd. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gofnodi'r holl wastraff maent yn ei gasglu ac adrodd amdano, ac mae'n well gan Lywodraeth Cymru fod gwastraff gardd yn cael ei gasglu a'i gofnodi ar wahân. Bydd gan y cerbydau casglu sbwriel newydd, a fydd yn dod i rym ar 31 Hydref, adran ar wahân yn y blaen a fydd ond yn gallu cynnwys gwastraff bwyd. Er mwyn helpu preswylwyr i gyfarwyddo â'r newidiadau, rhwng 31 Hydref ac 2 Rhagfyr bydd gwastraff gardd sy'n cael ei osod allan yn ystod wythnos casglu **bagiau du** (mewn bagiau gwastraff gardd a brynir ymlaen llaw gan y Cyngor) yn cael ei gasglu. Ni fydd yn cael ei gasglu yn ystod wythnos casglu bagiau glas. Ni fydd unrhyw gasgliadau pellach yn cael eu gwneud ar ôl yr amser hwn hyd nes y bydd y cynllun newydd yn cael ei gyflwyno.

Beth ydw i'n ei wneud â'm gwastraff gardd nawr/dros y gaeaf? Gan mai misoedd y gaeaf sydd o'n blaenau erbyn hyn, ni ddylai fod gan bobl lawer o wastraff gardd i'w waredu. Os oes gennych unrhyw wastraff gardd, gallwch ddefnyddio bin compostio gartref neu ddefnyddio eich canolfan ailgylchu gwastraff y cartref agosaf. Os oes angen cymorth arnoch â'ch gerddi, mae cymorth ar gael gan nifer o sefydliadau yn y trydydd sector megis Age Cymru Sir Gâr a Chymdeithas Gymunedol Coleshill.
Age Cymru Sir Gâr
Gwefan: www.agecymru.org.uk/sirgar
E-bost: info@agecymrusirgar.org.uk
Rhif ffôn: 01554 784 080
Tim Cynnal a Chadw Tiroedd Cymdeithas Gymunedol Coleshill Gwefan: www.sirgar.llyw.cymru/
E-bost: tchapman@sirgar.gov.uk Ffôn: 01554 744251

Beth ddylwn i ei wneud â'r bagiau sydd gen i ar ôl? Os ydych yn dymuno, gallwch ddefnyddio'r bagiau sydd gennych ar ôl i fynd â'ch gwastraff gardd i ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref. Gellir rhoi'r bagiau'n uniongyrchol i mewn i'r sgip gwastraff.

A ydw i'n gallu cael ad-daliad am y bagiau sydd gen i ar ôl? Nid oes ad-daliadau'n cael eu rhoi. Gellir defnyddio unrhyw fagiâu sydd gennych ar ôl i fynd â'ch gwastraff gardd i ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref.

Pryd a sut bydd fy ngwastraff gardd yn cael ei gasglu unwaith yn rhagor? Bydd gwasanaeth casglu gwastraff gardd newydd yn dechrau ym mis Ebrill, a bydd rhagor o fanylion ar gael cyn bo hir.

Pam nad ydych chi'n dechrau'r casgliadau cyn mis Ebrill? Ychydig iawn o wastraff gardd sydd ym misoedd y gaeaf, felly nid yw'n ymarferol dechrau'r casgliadau cyn y gwanwyn.

Pryd ydw i'n gallu gwneud cais am y gwasanaeth newydd a faint fydd yn ei gostio? Cyn gynted ag y bydd yr adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan yr aelodau, bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi.

Compostio

Compostio gartref yw un o'r ffyrdd mwyaf cost effeithiol a mwyaf cydnaws â'r amgylchedd o ymdrin â gwastraff gardd. Gall oddeutu traean o wastraff gael ei gompostio'n hawdd gartref – gan gynnwys torion gardd, cardbord, bagiau te a phapur. Drwy gompostio gwastraff yn lle rhoi popeth yn y bin sbwriel, gallwn leihau yn fawr gyfanswm y gwastraff a anfonwn i gladdfeydd sbwriel.

Pam y dylem ni gompostio gartref?

A wyddech chi fod compostio gartref am flwyddyn yn unig yn gallu arbed cynhyrchu cymaint o nwyon cynhesu'r byd â'r holl CO2 y mae eich tegell yn ei gynhyrchu'n flynyddol neu y mae eich peiriant golchi dillad yn ei gynhyrchu mewn tri mis?*

- Os caiff y gwastraff hwn ei gladdu mewn tomen sbwriel, nid yw aer yn gallu ei gyrraedd wrth iddo bydro felly mae'n cynhyrchu nwy methan ac yn llygru dŵr daear. Mae hyn yn cyfrannu at gynhesu byd-eang, gan olygu bod yn rhaid gwario llawer iawn o arian yn trin y dŵr daear sy'n gollwng o'r tomenni sbwriel.
- Arbed Arian - Mae'r compost sy'n cael ei gynhyrchu yn y pen draw yn ffynhonnell maetholion naturiol i blanhigion gan nad yw'n cynnwys dim cemegion artiffisial, ac mae hynny'n golygu y byddwch yn arbed yr arian y byddech yn ei wario fel arall ar gompost a gwrteithiau sydd wedi eu pacio'n barod.
- Mae'r rhan fwyaf o'r compost sydd wedi ei bacio'n barod yn cynnwys mawn, ac mae codi mawn o fawnogydd yn dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Yn ogystal mae compost cartref yn gwella ansawdd y pridd gan ychwanegu maetholion ato.



Sut mae'n gweithio

Mae compostio'n cyflymu'r broses bydro naturiol drwy greu'r amgylchiadau perffaith i organebau bychain ffynnu. Mae ar y rhain angen amgylchedd llaith lle mae digonedd o aer - mae tua biliwn o organebau mewn llond llwy de o bridd. Ar y cychwyn mae bacteria a ffyngau'n bwyta'r gwastraff mwy meddal gan luosogi'n gyflym a chynhesu'r domen hyd at ryw 60°C sef yr un tymheredd â dysglaid o de. Ar ôl rhyw 4-6 wythnos mae'r domen yn claeu, a dyna pryd y mae creaduriaid mwy o faint fel chwillod, mwydon a nadroedd cantroed yn dechrau bwydo ar y deunyddiau mwy gwydn. Os byddwch yn defnyddio bin compostio, bydd gennych gompost ar ôl rhyw 6-12 mis. Mae hyn yn llawer arafach yn y gaeaf. Mae hynny'n wir hefyd os oes gennych lawer o deunyddiau prenaidd mawr, felly mae'n werth darnio'r deunyddiau hynny gyntaf.

Ymhle y gallaf gael bin?

Gellir prynu biniau compostio oddi wrthym am £12 gan gynnwys cludiant.

Gallwch archebu eich bin compostio drwy fynd i lleoli.sirgar.llyw.cymru/cyflwyno-cais neu drwy ffonio 01267 234567 (cofiwch gael eich cerdyn credyd/debyd wrth law pan fyddwch chi'n ffonio). Yn ogystal gallwch ymweld ag un o'n desgiau talu yng Nghaerfyrddin, Llanelli, Rhydaman a Llandeilo.
Gall gymryd hyd at 4 wythnos i ddarparu'r bin ar ôl derbyn y taliad.



Casgliadau Sbwriel dros y Nadolig

Atgoffir trigolion y bydd newidiadau i'r casgliadau sbwriel dros gyfnod yr Ŵyl.

Er mwyn cael gwybod pryd y bydd eich biniau'n cael eu casglu ac ai wythnos casglu bagiau glas neu ddu yw hi ewch i lleoli.sirgar.llyw.uk a chlicio ar Fy Nghartref. Bydd y newidiadau hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Edrychwch yn eich papur newydd lleol a/neu wrando am negeseuon ar Radio Sir Gâr. Gallwch hefyd gofrestru i gael negeseuon testun neu negeseuon e-bost am amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys casgliadau gŵyl y banc ar Lleol-i.

COFIWCH

Gallwch weld a yw diwrnod / wythnos eich casgliad wedi newid drwy fynd i lleoli.sirgar.llyw.cymru a chliciwch ar 'Fy Nghartref'. Nodwch eich côd post, dewiswch eich cyfeiriad a chliciwch ar 'mynd'.

Cae rygbi newydd sbon



 **colegsirgâr**

Mae cae rygbi a phêl-droed 3G newydd sbon Coleg Sir Gâr ar gael i'w logi gan y cyhoedd.

Lleolir y cae FIFA ac Undeb Rygbi Cymru ar gampws y Graig, Llanelli.

Sesiwn ymarfer oedolion ac iau: cae cyfan £75 yr awr; hanner y cae £45 yr awr;

traean y cae £30 yr awr. Mae hefyd ar gael i'w logi gyda'r nos ac ar y penwythnos.

i

Ffoniwch 01554 748147 neu
07852 245587 neu anfonwch e-bost i
jonathan.garcia@colegsirgar.ac.uk

Clwb Olew Sir Gâr



Mae clybiau tanwydd lleol yn arbed

£6000,
ar gyfartaledd,
i'r gymuned bob mis!

Mae swmp-brynu yn gwneud mwy o synwyr o lawer

Ymunwch â Chlwb Tanwydd Lleol **HEDDIW** er mwyn arbed

£££

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Maria Evans, Swyddog Cyswllt Cymuned, ebostiwch

MLEvans@sirgar.gov.uk neu ffônwch 01267 228855

STSG+ CHS+

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Myfyrwyr Dysgu Hyblyg yn graddio gyda gradd Plentyndod Cynnar

Fe wnaeth y grŵp cyntaf o fyfyrwyr i astudio BA Plentyndod Cynnar (Llwybr Dysgu Hyblyg) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant raddio yn ystod yr haf - wedi dilyn cwrs gradd dros gyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na'r llwybr tair blynedd draddodiadol.

Mae'r radd Plentyndod Cynnar hyblyg wedi'i chynllunio i gyfuno ymrwymadau gwaith a gwirfoddoli myfyrwyr gydag astudiaeth ar nosweithiau a phenwythnosau. Mae myfyrwyr yn cael mynediad i ddarlithoedd a thiworialau yn ystod rhai sesiynau cyfnos a gyda'r nos yn ogystal ag ar rai Sadyrnau sy'n cael eu trefnu ymlaen llaw bob tymor.

Dyma gwrs delfrydol ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r

materion sy'n effeithio ar blant ifanc a'u teuluoedd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i integreiddio astudiaethau amser-llawn gydag ymrwymadau gwaith myfyrwyr, gan eu galluogi i astudio a gweithio ar yr un pryd.

"Roedd dewis y llwybr hyblyg trac cyflym yn benderfyniad cadarnhaol iawn i mi," meddai Marie Moore a wnaeth graddio dros yr haf.

"Roeddwn yn rhiant sengl oedd yn gweithio, gyda morgais i dalu felly fe wnaeth fy ngalluogi i barhau i weithio wrth ennill gradd mewn er mwyn gwella fy hun a fy sefyllfa ariannol yn y dyfodol. Fe wnes i hyd yn oed llwyddo i ennill gradd dosbarth cyntaf!"

 **Prifysgol Cymru**
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

i

Os oes gennych diddordeb dysgu mwy am y BA Hyblyg mewn Plentyndod Cynnar, cysylltwch â Glenda Tinney trwy e-bostio g.tinney@uwtsd.ac.uk

Ychwaneg o gartrefi ar gyfer pobl mewn angen



Bydd dros 60 o dai cyngor newydd yn cael eu hadeiladu yn Sir Gaerfyrddin dros y ddwy flynedd nesaf mewn buddsoddiad o £8.5 miliwn i dyfu stoc dai'r awdurdod lleol.

Mae'r cynllun yn rhan o Ymrwymiad Cartrefi Fforddiadwy gwerth £60 miliwn sydd wedi'i fwriadu i gyflenwi 1,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy ledled y sir erbyn 2021.

Yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd, mae'r cyngor yn tyfu ei

stoc trwy brynu eiddo – mae mwy nag 20 wedi cael eu prynu'n barod. Mae Sir Gaerfyrddin yn un o ddim ond hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru a gadwodd eu stoc dai, a Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i adeiladu tai cyngor newydd ers yr 80au pan ddatblygodd 12 cartref newydd yn 2014 – ac yn fuan wedi'r weithred honno fe ataliodd ei bolisi Hawl i Brynu er mwyn diogelu ei stoc, yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i

wneud hynny hefyd.

Meddai'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai, y Cyng. Linda Evans: "Rydym yn gwbl ymrwymedig i drefnu bod mwy o gartrefi ar gael i'r rhai â'r angen mwyaf. Trwy ddefnyddio ystod o ddatrysiadau arloesol rwy'n hyderus y gallwn gyrraedd ein targed erbyn 2021."

 **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council

Gwybodaeth

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Sut y gallaf ddod o hyd i wybodaeth am ddiwyddiadau cyn y Nadolig a thros yr Ŵyl?

Ewch i www.darganfodsirgar.com i gael yr holl wybodaeth am ddiwyddiadau yn y sir.

Sut y gallaf gael gwybod pryd y mae fy mhlentyn yn aildechrau yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig?

Mae'r tymor ysgol yn dechrau ddydd Mercher, 4 Ionawr. Ewch i www.sirgar.llyw.cymru ac i'r dudalen ysgolion i gael rhagor o wybodaeth. I weld pa ysgolion sydd ar gau dros dro adeg tywydd gwael, ewch i'r adran ysgolion ar gau drwy argyfwng.

Sut y gallaf gadw fy nghartref yn gynnes pan fo'r tywydd yn oer?

Gofalwch eich bod ar y tariff gorau – dylai edrych ar ambell beth syml ar-lein neu ambell alwad ffôn roi gwybod i chi ydych chi'n gallu arbed arian ar eich biliau tanwydd. Os gallwch chi – ewch amdani! Gallech hefyd ystyried ymuno â 'threfn newid ar y cyd' lle gallwch chi ymuno ag eraill i sicrhau bargaen well fyth. Edrychwch ar Cyd Cymru. Os ydych chi'n byw mewn ardal wledig ac yn defnyddio olew, ystyriwch ymuno â Chlwb Tanwydd, lle gallwch chi swmp-brynu olew gyda'ch cymdogion, a rhannu'r arbedion.

A ydych chi'n ei chael yn anodd talu biliau tanwydd dros y gaeaf?

Siaradwch â'ch cyflenwr i weld a all eich helpu mewn unrhyw ffordd. Efallai y bydd yn gallu cynnig bargaen well i chi. Gallai ambell newid syml yn eich cartref wneud gwahaniaeth mawr i'ch iechyd – ac i'ch poced.

Sut y gallaf i gael rhagor o wybodaeth ynghylch fy hawliau defnyddiwr?

Os ydych yn aelod o'r cyhoedd ac wedi prynu nwyddau neu wasanaethau a'ch bod angen gwaith atgyweirio, cyfnewid eitemau neu gael ad-daliad, gallwch ddarllen am eich hawliau ar wefan y llywodraeth ynghylch Hawliau Defnyddwyr.

www.gov.uk/consumer-protection-rights

Sut y gallaf i gael gwybod pa ffyrdd sydd wedi'u graeanu?

<http://leoli.sirgar.llyw.cymru/fy-un-agosaf/>

Ydych chi'n bwriadu cynnal parti Nadolig neu barti Nos Galan?

I gael gwybod a oes angen hysbysiad digwyddiadau dros dro Ffoniwch 01267 228787 / 228801

Sut y gallaf gael gwybod am amserau ymweld ysbytai dros Nadolig?

Ysbyty Dyffryn Aman	01269 822228
Ysbyty Glangwili	01267 235151
Ysbyty Llanymddyfri	01550 722200
Ysbyty's Tywysog Philip	01554 756567

Gwarchod plant – gyrfa i chi?



Ymgeiswyr sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar yng Nghwrs Gwarchod Plant CYPOP5: Jayne Williams, Kylie Watts, Samantha Bream, Ian Rees, Lucia Ward, Adam Poskitt, Avril Rees, (Swyddog Datblygu Gwarchod Plant), Tasha Harvey, Richard Griffiths, Amy Hillman a Rhian Scott.

A hoffech fod yn warchodwr plant cofrestredig? Os felly, efallai y gallwn ni eich helpu.

Ar hyn o bryd, mae prinder gwarchodwyr plant cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig yn ardaloedd Gwendraeth, Teifi, Tywi, Aman a Llanelli. Mae gwarchod plant yn yrfa sy'n rhoi boddhad mawr i'r rheiny sy'n mwynhau gweithio gyda phlant ac sy'n frwdfrydig iawn dros roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant. Mae gweithio gyda phlant yn llawn hwyl ac yn hyblyg a gallwch weithio o gartref.

I gofrestru fel gwarchodwr plant bydd angen i chi gwblhau'n llwyddiannus CYPOP5 (Plant a Phobl Ifanc Dewis 5) sef uned o Ddiploma CACHE Lefel 3 mewn gofal plant yn y cartref.

Mae'r cwrs gwarchod plant yn cael ei gyllido gan y tîm Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin a'i ddarparu gan Avril Rees, Swyddog Datblygu Gwarchod Plant, i helpu i gefnogi gwarchodwyr plant posibl ar eu llwybr gyrfa newydd.

i

Os oes diddordeb gennych mewn bod yn warchodwr plant cofrestredig cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae drwy ffonio 01267 246555 neu www.fis.carmarthenshire.gov.uk

Gwasanaeth larwm personol Llinell Gofal

Mae amrywiaeth o ddyfeisiau monitro a larymau personol sy'n gallu eich helpu i barhau i fyw gartref yn ddiogel ac yn annibynnol.

Gwasanaeth larwm personol yw Llinell Gofal ac mae'n cael ei ddarparu gan Cyngor Sir Gâr. Mae'r larwm yn cael ei fonitro 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, pob diwrnod o'r flwyddyn, ac mae'n cynnig tawelwch meddwl llwyr i chi a'ch anwyliaid drwy wasgu botwm.

Mae'r gwasanaeth yn denu amrywiaeth eang o bobl ag anghenion gwahanol o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain, gan eu bod yn gwybod bod help bob amser wrth law, i'r rheiny sy'n byw gyda chyflyrau meddygol, anawsterau dysgu neu broblemau symud o bosibl. Mae'n cynnig sicrwydd i aelodau o'r teulu, gan eu bod yn gwybod bod eu hanwyliaid yn gallu cael help ar unwaith, os oes arnynt ei angen.

Mae'r larwm yn hawdd iawn i'w ddefnyddio a gellir ei wisgo o amgylch y gwddf neu'r arddwrn. Mae'n gweithio o amgylch ac yn eich cartref.

i

Gall Llinell Gofal cael ei osod mewn un ymweliad. Mae'n hawdd gwneud cais am larwm. Y cyfan mae'n rhaid ichi ei wneud yw cysylltu â Llinell Gofal drwy ffonio 01558 824283 neu hala e-bost i llinellgofal@sirgar.gov.uk

TOCYNNAU
AR WERTH
NAWR

Mae
**JERMIN
PRODUCTIONS**
yn Falch i Gyflwyno

MEWN THEATRAU'R GAEAF HWN

Ewch i:
WWW.JERMINPRODUCTIONS.CO.UK
Neu Ffoniwch:
01792 458855

f JERMIN PRODUCTIONS t @JERMIN_PROD @JERMINPRODUCTIONS

Penyrheol

Sir Gâr iachach

Pigiad y fflw – mae'n cymryd munud, para am flwyddyn ac yn gallu achub eich bywyd

Os ydych yn un o'r grwpiau a argymhellir i gael pigiad y fflw, mae'n bwysig eich bod yn ei gael, am ddim, yn eich Meddygfa neu mewn fferyllfa.

Os ydy eich plentyn yn yr ystod oedran i gael y brechlyn, dylai eich Meddyg Teulu neu'r gwasanaeth nyrsio ysgol gysylltu â chi.

Mae'r brechlyn yn cynnig amddiffyniad da yn erbyn y fflw. Rhwir y brechlyn fel arfer o ddiwedd mis Medi. Felly curwch fflw cyn iddo eich curo chi!

Mae cannoedd o weithwyr gofal cymdeithasol rheng-flaen y Cyngor yn cael eu brechiad blynyddol rhag y fflw hefyd i helpu i amddiffyn y bobl agored i niwedd yn eu gofal.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau bod yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â'r rhai sydd fwyaf mewn perygl yn cael eu himiweiddio er mwyn cyfyngu i'r eithaf ar ledaeniad y fflw.



i Am fwy o wybodaeth am y brechlyn fflw ewch i www.galwiechdymru.wales.nhs.uk neu www.beatflu.org neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47. Gallwch hefyd siarad â'ch meddyg neu nyrs neu fferylllydd lleol.

Symud er mwyn gwella

Mae angen i blant symud mwy er mwyn gwella'u hiechyd a'u dysgu yn ôl Dr Nalda Wainwright, Cyfarwyddwr Athrofa Llythrennedd Corfforol Cymru ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

"Mae plant yn treulio mwy o amser yn eistedd yn llonydd yn gwyllo'r teledu, yn chwarae ar yr i-pad, cyfrifiaduron a ffonau," meddai Dr Wainwright. "Mae hyn yn achos pryder oherwydd rydym ni'n gwybod drwy ymchwil os na fydd plant yn dysgu symud yn dda ar oed cynnar, dydyn nhw ddim yn debygol o ddod yn egniol wrth dyfu i fyny. Mae hyn yn meddwl bod mwy o risg y byddan nhw dros eu pwysau neu'n ordew, o ddatblygu diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, osteoporosis a llawer mwy o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â diffyg gweithgarwch corfforol."

Mae'n bwysig iawn bod plant bach â sylfaen o symudiadau da - ac mae hyn yn dod drwy lawer o chwarae corfforol gyda help athrawon a rhieni. Y newyddion da yw bod plant, drwy ddatblygu eu sgiliau corfforol, hefyd yn datblygu eu hymennydd ac yn gwella eu dysgu.



i I gael gwybodaeth bellach am waith Athrofa Llythrennedd Corfforol Cymru ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ewch i <http://physicalliteracy.cymru>

Gyrfaoedd



Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnal ffair gyrfaoedd yng Nghastell Newydd Emlyn ar ddydd Iau 3 Tachwedd. Mae'r ffair yn agored i unrhyw un sy'n dymuno cael gwybod mwy am yr ystod o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael.

Cynhelir y digwyddiad yng Nghanolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn rhwng 9yb a 5yp a bydd arbenigwyr o'r bwrdd iechyd wrth law i drafod yr amryw gyfleoedd sydd ar gael o fewn gofal iechyd ac i ateb unrhyw gwestiynau.



Mae angen i landlordiaid cofrestru

Atgoffir landlordiaid yn Sir Gaerfyrddin mai wythnosau'n unig sydd ar ôl cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru o dan y cyfreithiau tai newydd a gyflwynwyd yng Nghymru.

Erbyn 23 Tachwedd, mae'n rhaid i'r holl landlordiaid gofrestru a bydd angen i asiantiaid a landlordiaid sy'n hunanreoli gael trwydded.

I gael trwydded, rhaid i asiantiaid a landlordiaid sy'n hunanreoli naill ai gwblhau hyfforddiant ar-lein neu fynychu cwrs hyfforddiant cymeradwy.

Cyflawnwch ofnyon hyfforddi eich cais am drwydded landlord gyda Chyngor Sir Caerfyrddin – hyfforddwr landlordiaid cymeradwy gyda Rhentu Doeth Cymru.

Mae'r cwrs a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn addas i landlordiaid sy'n hunanreoli yn unig ac nid i asiantiaid.

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs hyfforddiant, chwiliwch am 'landlord' yn www.sirgar.llyw.cymru

Dim ond 2 dyddiad sydd ar ôl **ARCHEBWCH NAWR** Tachwedd 3ydd a 18fed



Gwasanaethau newydd ym Meddygfa Minafon

Mae gwasanaethau newydd ar waith i gefnogi cleifion Meddygfa Minafon, sy'n gwasanaethu Cydweli, Glanyfferi a Thrimsaran.

Os y gwnaethoch golli cyfarfodydd cyhoeddus y Feddygfa a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod mis Hydref, efallai nad ydych yn ymwybodol bod staff ychwanegol a ffyrdd newydd o weithio yn y Feddygfa er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus o wasanaethau ar gyfer y gymuned leol.

Mae'r mentrau newydd yn cynnwys

- Gwasanaeth cymorth dros y ffôn – fel bod Meddygfa Teulu a chleifion yn penderfynu ar y cyd a oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb
- Gwasanaeth Ffisiotherapydd Uwch newydd i ddarparu triniaeth ar gyfr llawer o gyflwyniadau cyhyrsgerbydol cyffredin, megis pown yn y cymalau
- Rheolwr Nyrsys newydd i weld a thrin cleifion â mân salwch fel haint ar y frest



EICH CANOLFAN SYMUDEDD UN-STOP

Annibyniaeth lwyr i yrwyr anabl... yn cynnig popeth i wneud eich bywyd yn haws

Byw Bywyd i'r Eithaf...

Gyda'r amrywiaeth llawn o offer symudedd sydd gennym

- Cymhorthion Bath • Cymhorthion Cerdded
- Cadeiriau Olwyn • Teclynnau Codi • Cymhorthion Toiled
- Sgwteri • Cymhorthion Bywyd Beunyddiol

Amrywiaeth eang o nwyddau o ansawdd i'w weld Cyllid 0% ar gael (yn amodol ar statws)


Yr holl gadeiriau olwyn â phwer diweddaraf ac ategolion

Cadeiriau Ysgafn Cadeiriau olwyn â phwer newydd

Cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ar gael

Sir Gâr iachach

Campfeydd newydd £1 miliwn



I gael rhagor o wybodaeth ewch at y wefan www.sirgar.llyw.cymru

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn buddsoddi dros £1miliwn er mwyn uwchraddio cyfleusterau ac offer ffitrwydd yng nghampfeydd ei ganolfannau hamdden.

Gyda champfa newydd eisoes wedi agor yn Llanelli, a dwy i ddilyn yng Nghaerfyrddin a Rhydaman, bydd cynlluniau newydd y campfeydd yn rhoi amgylchedd gwyach i

ddefnyddwyr wneud ymarfer corff ynddynt. Maent yn cynnwys offer Life Fitness newydd sy'n galluogi aelodau i wneud ymarfer corff mewn ffordd fwy ysgogol a rhyngweithiol – gallu gwyllo'r digwyddiadau chwaraeon diweddaraf neu wrando ar eu hoff gameun ar YouTube i ychwanegu cyffyrddiad personol at eu sesiynau ymarfer. Trwy ddefnyddio'r ap Life

Fitness Connect, gall aelodau weld sesiynau ymarfer wedi'u personoli hefyd trwy glicio botwm.

Bydd staff cymwys, cyfeillgar wastad wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad, ac nid oes cost yn ychwanegol at ffioedd aelodaeth.



Personoliaeth Chwaraeon Sir Gaerfyrddin 2016

Mae'r chwilio wedi dechrau er mwyn dod o hyd i sêr chwaraeon Sir Gaerfyrddin am 2016.

Derbynnir enwebiadau bellach ar gyfer 13 o gategoriâu'r seremoni Personoliaeth Chwaraeon flynyddol sydd i'w chynnal ym mis Chwefror.

Mae'r categorïau'n cynnwys Personoliaeth Chwaraeon, Chwaraewr a Chwaraewraig Ifanc, Chwaraewr a Chwaraewraig Anabl, Hyfforddwr Chwaraeon, Gwirfoddolwr Chwaraeon, Gwirfoddolwr Ifanc Chwaraeon, Tim y Flwyddyn, Tim Ifanc y Flwyddyn, Hyfforddwr Chwaraeon Cymunedol a Hyfforddwr Perfformiad Uchel, Gwasanaethau Rhagorol i Chwaraeon ac Oriol Anfarwlon Chwaraeon.

Mae gwobrau eleni, sef y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg i'r gwobrau gael eu cynnal, yn cael eu trefnu gan dîm Chwaraeon a Hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn cydnabod llwyddiannau athletwyr, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr ledled Sir Gaerfyrddin ym myd y campau.

Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn digwyddiad mawreddog yn y Ffwrnes ddydd Gwener, 3 Chwefror.

Dywedodd y Cyngorydd Meryl Gravell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden: "Mae gan Sir Gaerfyrddin enw rhagorol yn y byd chwaraeon yng Nghymru. Mae'r gwobrau'n gyfle i longyfarch ac anrhydeddu sêr chwaraeon dawnus y sir a'r glewion sydd heb gael clod sy'n gyfrifol am eu clybiau."

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw dydd Gwener, 25 Tachwedd. Mae ffurflenni ar gael ar ein gwefan neu anfonwch e-bost at ActifSirGar@sirgar.gov.uk

Tip Ffitrwydd

Dipiau'r cyhyrau triphen

Mae eich cyhyr triphen yn ffurfio hyd at dri chwarter o gyhyr eich braich ac ar gyfartaledd mae ddwywaith gymaint â'ch cyhyr deuben. Y cyhyrau triphen sy'n symbylu symudiadau cylchdro'r ysgwydd a'r penelin ac mae'r ymarfer hwn yn defnyddio'r cyhyrau deltaidd a'r pectoralis mwyaf sef cyhyr y frest, felly mae'n ymarfer gwyach ar gyfer gwella cryfder rhan uchaf y corff. Gallwch chi hefyd wneud hyn gartref, ar waelod y grisiau, ar gadair neu ar unrhyw arwyneb cadarn sy'n cynnal pwysau eich corff.



- Rhowch eich dwylo led ysgwydd ar wahân gyda'ch bysedd yn wynebu ymlaen a'ch penelinoedd yn wynebu tuag yn ôl ar ochrau eich corff
- Ymestynnwch eich coesau yn syth allan o'ch blaen
- Anadlwch i mewn yn ddwfn, ac yn araf gostyngwch eich corff nes bod eich elin (rhan flaen eich braich) a'ch braich uchaf ar 90 gradd
- Anadlwch allan a gwithwch yn ôl i fyny nes bod eich breichiau'n cloi eto
- Gwnewch hyn 10 gwaith cyn cymryd egwyl am funud, a chwblhewch dair set.



Catrin Stoneman o Goleg Sir Gâr a cyfarwyddiadau ffitrwydd gan myfyriwr Martyn Bowles



POB AELODAETH OND

£19.99

AM Y 4 WYTHNOS GYNTAF

CYNNWYS AELODAETH 'AELWYD'

AM HYD AT
2+4
OEDOLYN O BLANT

Dim ffi ymaelodi

YMUNWCH Â NI AR-LEIN:

www.actifsirgar.co.uk

CYSYLLTWCH Â NI HEDDIW!

01267 224720

Actif
Ffitrwydd
Fitness

CYNGOR Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Dweud eich dweud...

Gofal Plant yn Sir Gaerfyrddin



Mae rhieni'n cael eu hannog i ddweud eu dweud am ofal plant yn Sir Gaerfyrddin.

Mae arolwg ar-lein ar waith ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin, sy'n gofyn i bawb fynegi eu barn ynghylch eu trefniadau presennol o ran gofal plant. Mae'r Cyngor eisiau gwella argaeledd gofal plant yn y sir yn ogystal â datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion rhieni/gofalwyr.

Bydd arolygon sydd wedi'u cwblhau yn cael dewis i gystadlu mewn raffl fawr am ddim er mwyn ennill taleb gwerth £350 i Argos, gwers sgïo ym Mharc Gwledig Pen-bre a chrys/pêl rygbi wedi'u llofnodi.

Un ffurflen fesul teulu a'r dyddiad cau yw 16 Rhagfyr. Ymdrinnir â'r holl atebion yn gyfrinachol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch i lanw'r holiadur, cysylltwch â'r Swyddfa Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae Drwy Ffônio 01267 246555.

Ymgynghoriadau Cyfredol

GORFFEN

RHAG

16

2016

Ymgynghori Rhieni/ Gofalwr

Fel y byddwch i gyd yn gwybod, mae gan bob Awdurdod Lleol ar draws Cymru ddyletswyddau statudol o ran gofal plant. Dan Ddeddf Gofal Plant 2006, i sicrhau digon o ofal plant, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, i ddiwallu anghenion lleol rhieni a gofalwyr er mwyn eu galluogi i ymgymryd â hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gwaith.

Er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu gofal plant, mae'n ofynnol inni gynhyrchu Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd yn dadansoddi'r galw am ofal cofrestredig i blant yn y Sir a'r cyflenwad sydd ar gael.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng nes 16 RHAG 2016.

RHAG

05

2016

Adolygiad o Etholaethau Seneddol

Mae'r Adolygiad o Etholaethau Seneddol bellach yn cael ei gynnal gan y pedwar Comisiwn i Ffiniau yn eu rhannau perthnasol o'r Deyrnas Unedig. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru bellach yn gofyn am sylwadau ynghylch ei gynigion cychwynnol. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal dros oddeutu dwy flynedd a hanner. Bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Senedd ym mis Medi 2018 ac os cytunir ar y rhain bydd yr etholaethau newydd yn weithredol yn yr Etholiad Cenedlaethol nesaf yn 2020. **Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng nes 05 RHAG 2016**

RHAG

02

2016

Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Cymuned Cyngor Cymuned Llangydeyrn (Wardiau Pont-iets a Llangydeyrn)

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cynnal adolygiad o drefniadau etholiadol i ystyried cais gan Gyngor Cymuned Llangydeyrn i leihau nifer y cynghorwyr cymuned sy'n cynrychioli wardiau cymunedol Pont-iets a Llangydeyrn. Ar hyn o bryd mae 8 aelod cymuned yn cynrychioli Pont-iets a'r cynnig yw lleihau hyn i 6. Ar hyn o bryd mae 4 aelod cymuned yn cynrychioli Ward Gymunedol Llangydeyrn a'r cynnig yw lleihau hyn i 3. **Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng nes 02 RHAG 2016**

IONAWR

04

2017

Cyllideb Cyngor Sir Gaerfyrddin

Mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori ynghylch ei gyllideb bob blwyddyn. Bydd cyfres o gynigion yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol cyn cynnal yr ymgynghoriad ffurfiol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar **18 TACHWEDD 2016 ac yn dod i ben ar 04 IONAWR 2017**

Lleol-i

Er mwyn gweld neu gymryd rhan mewn ymgynghoriadau sydd ar waith ar hyn o bryd ewch i Lleol-i, gallwch hefyd gofrestru er mwyn cael gwybod am ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Datblygiad sy'n llawn botensial

Roedd busnesau sy'n arbenigo mewn gwyddorau bywyd, gwasanaethau proffesiynol a masnachol, a phrosiectau arbennig, ymhlith y rhai cyntaf i glywed am gyfleoedd i ddatblygu safleoedd busnes newydd ar bwys y Goleudy, yn Dafen, Llanelli.

Bu cynulleidfa gan gynnwys datblygwyr eiddo potensial a dylanwadwyr o ran diwydiant yn ymgynnull yn y Goleudy i ddysgu am y ddau safle datblygu a siarad â swyddogion am eu dewisiadau busnes hirdymor yn Sir Gaerfyrddin.

Dywedodd y Cynghorydd Meryl Gravell, yr Aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor dros Adfywio: "Mae gan Sir Gaerfyrddin hanes llwyddiannus iawn o ran datblygu busnes ac eiddo, ac roedd heddiw yn gyfle i gadarnhau ei bod yn lle i fuddsoddi a datblygu.

"Rydym wedi cael llawer o drafodaethau cadarnhaol a bydd ein tîm yn gweithio'n galed gyda datblygwyr a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant i symud ymlaen unrhyw gynlluniau datblygu ar y ddau safle hyn."



Gwobrau amaethyddol myfyrwyr

colegsirgâr

Cafodd rhai o fyfyrwyr Coleg Sir Gâr sy'n astudio ar gampws amaethyddol y Gelli Aur eu gwobrwyo yn y Sioe Frenhinol eleni.

Enillodd Aled Davies Wobr Myfyriwr y Flwyddyn Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2016 a Gwobr Deithio Gwili Jones. Cyflwynwyd y wobwr yn 2013 er cof am y diweddar Mr Gwili Jones a sefydlodd ei fusnes peiriannau

amaethyddol ym Mheniel. Nod y wobwr yw annog dysgwyr i archwilio, astudio a gwerthuso gwahanol ddiwyllianau a systemau cynhyrchu a allai fod yn fuddiol yn eu maes gwaith.

Mae tri myfyriwr hefyd wedi elwa o Ysgoloriaeth Deithio Goffa Gareth Raw Rees NFU Cymru. Mae Aled Davies, Mark Harries a Jordan Davies wedi derbyn cyfraniad ariannol tuag at daith astudio'r coleg i Seland Newydd, lle byddant yn archwilio amrywiol systemau ffermio a thechnegau rheoli glaswelltir.



Heuwch yr had i gael hyfforddiant amaethyddol yng Ngholeg Sir Gâr 01554 748179 – mae cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael hefyd.

Astudio ar gyfer gradd



Dysgwch sut i gastio metel gyda chwrs BA anrhydedd mewn cerflunio yng Ngholeg Sir Gâr yn Ysgol Gelf Caerfyrddin

Mae Coleg Sir Gâr, mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, yn cynnig nifer o gyrtsiau gradd ar draws Sir Gaerfyrddin. Cynigir cyrsiau prifysgol mewn nifer o feysydd sy'n cynnwys rheolaeth adeiladu, cynghori, nyrsio milfeddygol, rheoli busnes, ymddygiad a lles anifeiliaid, astudiaethau plentynod, cerameg a gemwaith, astudiaethau gofal cymdeithasol, hyfforddi a pherfformio chwaraeon a pheirianeg electronig.

Mae Ysgol Gelf Caerfyrddin y coleg hefyd yn opsiwn ardderchog ar gyfer astudiaeth brifysgol. Gyda'r darlithwyr a'r artistiaid gweithredol i gyd wedi'u lleoli ar un campus mae taith y myfyriwr yn un neilltuol o greadigol. Er mwyn astudio'n llawn amser, gwnewch gais trwy UCAS gan ddefnyddio côd y sefydliad C22. Rhaid gwneud cais i'r coleg ar gyfer astudio'n rhan-amser.



Cewch wybod os ydych yn gymwys am gyllid trwy anfon e-bost i financialsupport@colegsirgar.ac.uk neu derbyniadau@colegsirgar.ac.uk i wybod mwy am y cyrsiau

Sgiliau DU

Bydd pedwar ar ddeg o fyfyrwyr o Goleg Sir Gâr yn cystadlu yn sioe sgiliau genedlaethol y DU ym Birmingham y mis Tachwedd hwn. Bydd y myfyrwyr, sy'n cynrychioli eu coleg a Chymru, yn profi eu sgiliau mewn gwyddor amgylcheddol, marsiandiaeth weledol, gwasanaeth bwyty, gwelliannau ewinedd, datrysiadau meddalwedd TG ar gyfer busnes, rheolaeth ddiwydiannol ac iechyd a gofal cymdeithasol, gan gystadlu i gael eu henwi fel y gorau yn y Deyrnas Unedig yn eu maes sgiliau.

Bydd y cystaddeuwr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ar gyfer cystadlaethau rhyngwladol WorldSkills hefyd yn cystadlu am gyfle i gael eu dewis i gystadlu yn nigwyddiad dethol Carfan y DU ar gyfer WorldSkills Kazan 2019.

Y llynedd enillodd Coleg Sir Gâr safle'r coleg uchaf yng Nghymru o'r pedwerydd yn nhabl cynghrair cyffredinol yr enillwyr medalau dros y Deyrnas Unedig gyfan.



Ffonwch Goleg Sir Gâr ar 01554 748179 neu trwy gysylltu â'r coleg ar Facebook neu Twitter

Tai Llety â Chymorth

A ydych am wneud gwahaniaeth?

A ydych chi'n credu y gallwch gael dylanwad cadarnhaol ar ddyfodol person ifanc?

A oes gennych ystafell sbâr?

A allech chi gynnig cartref i berson ifanc 16 i 25 oed allai fod yn gadael gofal, neu sydd efallai ddim yn gallu byw gartref?



Yn gydnabyddiaeth am hyn gallwn gynnig: Lwfans wythnosol o hyd at £130 yr wythnos

Hyfforddiant

Cefnogaeth barhaus

Os oes gennych ddiddordeb i gael gwybod rhagor am y Cynllun Tai Llety â Chymorth ewch i:

www.llamau.org.uk/supportedlodgings

neu cysylltwch â ni ar 01554 740002 yn ystod oriau swyddfa am sgwrs anffurfiol.

cefnogipobl
supportingpeople
supporting independence
cefnogi annibyniaeth



Llamau yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae Llamau yn arbenigo mewn darparu cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc a menywod agored i niwed sy'n wynebu digartrefedd, gan eu helpu i fynd i gyfeiriad byw'n annibynnol. Rhif Elusen Gofrestredig: 701772

Cynhyrchiad It's My Shout

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau Celfyddydau Perfformio a Dylunio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi bod yn perffeithio'u sgiliau cynhyrchu diolch i bartneriaeth gyffrous gydag It's My Shout.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

It's My Shout Ltd yn arbenigo mewn cynhyrchu ffilmiau byr ar gyfer teledu a'r sgrin ar gyfer amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys BBC Cymru Wales ac S4C. Maent yn helpu i ddod o hyd i'r doniau newydd gorau yng Nghymru, gan ddarparu hyfforddiant ymarferol ar gyfer pobl ifanc gan weithwyr proffesiynol o'r diwydiant.

Diolch i'r fenter, mae myfyrwyr o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi chwarae rhan annatod wrth greu saith o ddramâu byrion a saith rhaglen ddogfen a fydd yn cael eu darlledu ar BBC Cymru ac S4C yn ddiweddarach eleni.

Mae'r fenter wedi bod yn bartneriaeth rhwng Cyfadran Celf a Dylunio y Brifysgol; Ysgol y Celfyddydau Perfformio a'r tîm tu ôl i Ganolfan S4C Yr Egin - y ganolfan newydd ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Digidol a fydd hefyd fydd cartref newydd i bencadlys S4C yng Nghaerfyrddin.

Bloc gwyddoniaeth newydd Coedcae

Mae Ysgol Coedcae wedi bod yn dathlu ar ôl i'r ysgol agor ei bloc gwyddoniaeth newydd.

Yr adeilad newydd yw'r cymal cyntaf i gael ei gwblhau fel rhan o fuddsoddiad gwerth £6.7 miliwn o dan Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor. Mae cymal dau - i adnewyddu'r ysgol bresennol a gwella trafndiaeth a'r mynediad i gerddwyr - yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae disgwyl i'r gwaith gymryd 12 mis i'w gwblhau a daw hanner y cyllid ar gyfer y cynllun o grant Llywodraeth Cymru, drwy ei menter Ysgolion yr 21ain Ganrif, a'r hanner arall o Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor.

Dyweddodd y Cynghorydd Gareth Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg: "Rydym wrth ein bodd ein bod yn gallu darparu'r cyfleuster rhagorol hwn i ddisgyblion Ysgol Coedcae. Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn nid



yn unig yn gwella cyflwr cyffredinol yr ysgol ond hefyd yn rhoi dyfodol cynaliadwy i'r 1100 o ddisgyblion sy'n ei mynychu."

Daw'r buddsoddiad yn Ysgol Coedcae yn dilyn cynlluniau sylweddol yn ardal Llanelli dros y blynyddoedd diwethaf gan

gynnwys adeiladu ysgolion newydd yn y Ffwrnes, Maes y Morfa, Brynsierfel, Ysgol y Felin, y Bryn a Brynteg, yn ogystal â gwaith gwella a helaethu mewn ysgolion eraill gan gynnwys Dyffryn y Swistir, Llannon, Halfway, Ysgol y Strade ac Ysgol Glan y Môr.

Pa bynnag ffordd...



...mae 'na groeso i chi gysylltu â Chyngor Sir Gâr yn Gymraeg

IAITH
SIR GÂR



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Cynnal ymgynghoriad helaeth ar y gyllideb

Bydd ymgynghori helaeth â'r cyhoedd yn digwydd yr hydref hwn mewn perthynas â chyllideb y cyngor sir ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Bydd pobl yn cael cyfres o gyfleoedd i gyflwyno'u sylwadau ynghylch y cynigion sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd. Ni fyddai dim o'r cynigion yn cael ei roi ar waith cyn iddo gael ei drafod gan y cyngor. Bydd yr holl sylwadau'n cael eu hystyried gan gynghorwyr cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y gyllideb.

Mae'n rhaid i'r cyngor arbed oddeutu £x miliwn dros y tair blynedd nesaf a bwriedir gwneud toriadau o £x miliwn y flwyddyn nesaf. Daw oddeutu 80% o gyllid y cyngor o Lywodraeth Cymru ond disgwylir i'w chyfraniad leihau ymhellach flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod wneud arbedion enfawr ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae

swyddogion wedi clustnodi arbedion effeithlonrwydd o ran materion gweithredol, cyn eu cyflwyno nhw gerbron y cynghorwyr er mwyn gwneud penderfyniad. Bydd y cyngor llawn yn trafod ac yn penderfynu ar unrhyw newidiadau o ran polisiau y gallai'r toriadau yn y gyllideb effeithio arnynt.

Roedd ymgynghoriad y llynedd a oedd yn cynnwys sioeau teithiol, digwyddiadau rhanddeiliaid a holiadur ar-lein, yn llwyddiannus iawn ac roedd yr adborth wedi helpu i roi gwybodaeth i'r aelodau. O ganlyniad, newidiwyd nifer o gynigion.

Bydd yr ymgynghoriad eleni yn cynnwys holiadur ar-lein; digwyddiadau Insight gydag ysgolion lleol a chynghor leuencid Sir Gaerfyrddin; cyfarfodydd gyda chynghorau tref a chymuned, seminarau ar gyfer cynghorwyr sir ac ymgynghori â grwpiau o randdeiliaid amrywiol megis y fforwm 50+.



Ystyried cynigion polisi a chynigion gweithredol

Gofynnwyd i holl adrannau'r cyngor sir chwilio am arbedion. Mae'r amrywiol arbedion yn cael eu cynnig gan swyddogion adrannol ac yn cynnwys newidiadau o ran polisi a newidiadau gweithredol. Bydd y cynghorwyr yn penderfynu ynghylch y ddau wrth bennu'r gyllideb derfynol.

Mae'r cyngor sir yn darparu cannoedd o wasanaethau ym meysydd addysg, gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd, hamdden, trafniadaeth a glanhau strydoedd. Bydd yr holl gynigion sy'n cael eu rhoi gerbron i'w trafod yn cael eu cyhoeddi yn agenda'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer dydd Llun, 21 Tachwedd, a bydd ymgynghori'n dechrau'n syth ar ôl hynny. Mae'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, neu gellir ei wyllo ar y gweddarllediad naill ai'n fyw neu yn yr archifau drannoeth.



Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch y gyllideb ar gael ar wefan Lleoli o ganol mis Tachwedd ymlaen, ar Stafell Newyddion y Cyngor ac yn y wasg leol. Bydd adborth yn cael ei gynnwys yn rhifyn nesaf Newyddion Sir Gâr.

Dwend eich Dwend

I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ewch i <http://lleoli.sirgar.llyw.cymru/ymgynghoriadau/> - bydd yr arolwg yn fyw rhwng 18 Tachwedd a 4 Ionawr.

Buddsoddiad ledled y sir



Yn ogystal â'r gyllideb refeniw, bydd cynghorwyr yn trafod y gyllideb gyfalaf sy'n talu am ddatblygiadau a chynlluniau mawr.

Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen Moderneiddio Addysg, adeiladu ffyrdd newydd, prosiectau adfywio a thai.

Lansiwyd cynllun adfywio newydd ar gyfer y 15 mlynedd nesaf yn ddiweddar sy'n ceisio creu 5,000 o

swyddi a rhoi hwb i'r economi yn Sir Gaerfyrddin. Mae chwe phrosiect trawsnewidiol allweddol ledled y sir wedi'u cynnwys yn y cynllun.

Yn ogystal bydd argymhellion ar gyfer y gyllideb gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r agenda sy'n mynd gerbron y Bwrdd Gweithredol ar 21 Tachwedd.

Gwnewch gais NAWR! – ar lein – www.sirgar.llyw.cymru/derbyniadauysgol



Rhieni!
Rhaid gwneud cais
am le mewn ysgol

DYDDIAD CAU:

Cynradd – 31ain Ionawr 2017

Uwchradd – 16eg Rhagfyr 2016



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/derbyniadauysgol
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/schooladmissions

Yr Amgylchedd



Mae trigolion ledled Sir Gaerfyrddin yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cyfres o sesiynau codi sbwriel.

Bydd unigolion a grwpiau sy'n torchi eu llewys ac yn cymryd rhan yn y sesiynau yn cael eu gwobrwyo am eu hymdrechion.

Nod y fenter hon, a gynhelir ar y cyd rhwng adain ailgylchu ac adran tai Cyngor Sir Gaerfyrddin, gyda chymorth Cadwch Gymru'n Daclus a SPICE, yw gwella ansawdd yr amgylchedd lleol drwy weithredu'n gymunedol.

Yn gyfnewid am gymryd rhan bydd gwirfoddolwyr yn ennill Credydau Amser sy'n gallu cael eu cadw a'u gwario ar bob math o weithgareddau addysg neu hamdden lleol a chenedlaethol.

Casglwyd oddeutu 35 o fagiâu sbwriel gan gynnwys llawer o faw cŵn, bagiau adeiladwyr a hen gadair esmwyth mewn sesiwn codi sbwriel diweddar ym Mharc Penyfan.

Digwyddiadau

Dydd Gwener, 10am - 12pm
ar 18/11/2016
yn Neuadd Gymunedol Trallwm

Dydd Gwener, 10am - 12pm
ar 02/12/2016
yn Neuadd Gymunedol Dyffryn y Swistir

Datblygwyd prosiect Creu Gardd Hardd fel rhan o raglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin gan y Cyngor a fydd yn gwario tua £220 miliwn mewn tai cyngor, gerddi a chymunedau. Cafodd ei lunio'n wreiddiol er mwyn cynnwys tenantiaid mewn gwaith gwella yn eu gerddi a'u llecynnau awyr agored ond ers hynny mae Creu Gardd Hardd wedi datblygu er mwyn hybu pob math o gyfraniadau cymunedol boed yn rhandiroedd ar y cyd neu'n sesiynau codi sbwriel mewn ymgais i ysgogi balchder dinesig.



Eisiau cymryd rhan neu angen rhagor o wybodaeth? Ffoniwch 01554 899288 neu e-bostiwch prideinyourpatch@sirgar.gov.uk

Stoc eogiaid o dan fygythiad ar ôl i niferoedd silod eog disgyn

Mae stoc eogiaid mewn rhai mannau yng Nghymru'n wynebu bygythiad na welwyd mo'i debyg o'r blaen ar ôl i niferoedd silod eog ddisgyn yn syfrdanol mewn sawl afon enwedig y Tywi.

Ar ôl gwaith monitro arferol gan swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gwelwyd bod niferoedd silod ifanc (eogiaid ifanc sydd wedi dodwy yn ystod gwanwyn 2016) yn dyngedfennol o isel ar afonydd Tywi, Wysg a Chlwyd yn y rhan fwyaf o'r safleoedd a bysgotwyd. Dyma'r afonydd oedd yn arfer cynhyrchu niferoedd cyson o silod.

Yn nalgylch pysgodfeydd Tywi eleni, dangosodd arolygon fod eogiaid ar goll o 31 o'r 37 safle a fonitryd.

Meddai Peter Gough, Prif Ymgynghorydd Pysgodfeydd CNC: "Mae'r canlyniadau cyntaf hyn o'r arolygon yn annhebyg i ddim a welwyd yng Nghymru dros 30 mlynedd o fonitro,."

"Nid yn unig bydd y cwmp y niferoedd silod yn niweidio bioamrywiaeth yn ein hafonydd ond gallai hefyd gael effaith andwyol ar economi'r sectorau



pysgota a thwristiaeth.

Bob blwyddyn bydd CNC yn monitro stoc pysgod ifanc ledled Cymru er mwyn helpu i ddeall, gwella a rheoli ein stoc brodorol Mae'n bwisicach nag erioed bod pob pysgodyn sy'n cael ei ddal yn cael ei ddychwelyd i'r afon I gael cyfleu gynhedlu at y dyfodol.

Mae CNC hefyd yn cychwyn ymgyrch "Taclor Tywi" I gydweithio

gyda pob sector sy'n glwn gyda'r afon er mwyn ceisio datblygu cynllun cyneladwy "Tywi Byw" i'r dyfodol.



Statws Prifysgol Masnach Deg



® Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi cadw ei statws fel Prifysgol Masnach Deg drwy wneud ymrwymiad cadarn i gefnogi a defnyddio cynnyrch Masnach Deg ar draws ei champysau.

Er mwyn ennill statws Masnach Deg, mae'r Drindod Dewi Sant wedi dangos ei bod yn cyflawni pum nod allweddol, gan gynnwys gweithredu polisi Masnach Deg ffurfiol; sicrhau bod nwyddau Masnach Deg gan gynnwys bwyd a chotwm yn cael eu gwerthu yn siopau'r Brifysgol; sicrhau bod cynnyrch Masnach Deg yn cael ei weini ym mhob cyfarfod a gynhelir gan y

Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr; trefnu ymgyrchoedd ar y campws i gynyddu dealltwriaeth o Fasnach Deg yn ogystal â sefydlu Grŵp Llywio Masnach Deg. Mae'r Drindod Dewi Sant wedi rhagori ar y pum nod ac wedi dangos yn glir ei hymroddiad i wneud ei champysau yng Nghaerfyrddin, Abertawe a Llambled yn rhai Masnach Deg fel rhan o'i hymrwymiad cyffredinol i ddatblygu cynaliadwy.

"Rydym wrth ein bodd bod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi cadw ei statws fel Prifysgol Masnach Deg a bod yr adborth gan yr aseswyr mor bositif," meddai Dr Jane Davidson, Pro Is-Ganghellor ar gyfer Ymgysylltu Allanol a Chynaliadwyedd a Chyfarwyddwr INSPIRE (sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi ac Effeithiolrwydd Adnoddau).



AELODAETH CIG 2016 - 17

AR WERTH NAWR

0871 871 8088




Myfyrwyr yn ymweld ag Ohio

Mae tair myfyrwraig o'r drydedd flwyddyn sy'n astudio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant newydd ddychwelyd o'r Unol Daleithiau ar ôl ymweld â Phrifysgol Rio Grande Ohio.

Fe wnaeth Alexandra Deakin; Emily Knell-Davies a Rhiannon Sinnott sydd yn astudio BA gyda SAC (Statws Athro Cymwysedig) ar gampws y Brifysgol yng Nghaerfyrddin, ennill ysgoloriaethau i edrych ar ysgolion yn yr Unol Daleithiau.

Roedd treulio cyfnod dramor felly fe aethant at Kath Griffiths yn Swyddfa Ryngwladol y Brifysgol i drafod y posibiladau. Oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Rio Grande, awgrymodd Kath dylai'r myfyrwyr dreulio amser yn Ohio.


"Ry'n ni'n falch iawn ein bod wedi danfon tair o'n myfyrwyr o'r cwrs BA Addysg Gynradd i Rio Grande," meddai Kath.

"Mae'r cyswllt mor bwysig i ni, er mwyn helpu i warchod y cysylltiad Cymreig-Americanaid. Mae hefyd yn bwysig i ni yn Y Drindod Dewi Sant i greu graddedigion bydeang ac i gynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i'n myfyrwyr."



Cofiant Eluned Phillips

Mae'r Athro Menna Elfyn - Cyfarwyddwr Ysgrifennu Creadigol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - newydd gyhoeddi cyfrol newydd Optimist Absoliwt: Cofiant Eluned Phillips.



Hanes bywyd y bardd Eluned Phillips (1914 - 2009) sydd yn y gyfrol, a hi oedd yr unig ferch yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol i ennill dwy goron yn ystod yr ugeinfed ganrif. Y mae Menna Elfyn yn olrhain hanes y fenyw anghonfensiynol hon, ei bywyd personol yn ogystal â'i bywyd cyhoeddus. Teimla Menna y gwnaethpwyd cam ag Eluned - ac mae'r gyfrol hon yn ymgais at unioni'r cam hwnnw.

Roedd Yr Athro Menna Elfyn yn gyfarwydd ag Eluned Phillips ac yn lled-gyfarwydd â'i gwaith a'r straeon amdani ond pan gafodd gyfle i ymchwilio ymhellach i fywyd y fenyw bengoch, garismataidd o Genarth, fe gydiodd ei hysbryd yn Menna nes ei hysbrydoli i lunio cofiant am ei bywyd a'i gwaith.

Ar ôl pori ym mhapurau personol Eluned a llawer ohonynt yn ei llawysgrifen, daeth o hyd i drysorau a bu fel agor allwedd ar gist calon y prifardd. Tystia'r holl ysgrifennu i'w chreadigrwydd amryddawn ac wedi iddi ddarllen ei gwaith yn drylwyr, ystyriai Menna nad oedd dim amdani ond cloriannu ei chyfraniad a'i roi ar gof a chadw.



Mae Optimist Absoliwt: Cofiant Eluned Phillips ar gael yn eich siop lyfrau leol am £12.99 neu'n uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr, Gwasg Gomer www.gomer.co.uk

Beth sy' Mlaen

Y wefan orau

I gael rhagor o wybodaeth am y rhain ac am ddigwyddiadau eraill yn y sir, ac i hyrwyddo'ch digwyddiad chi YN RHAD AC AM DDIM, ewch i :

darganfodsirgar.com

Y Nadolig yn Sir Gaerfyrddin...

Dydd Gwener 18 Tachwedd:

- 🎅 Carnifal Nadolig Llanelli
- 🎁 Cynnau Goleuadau Nadolig Caerfyrddin
- 🎄 Gŵyl y Synhwyrâu, Llandeilo

Dydd Sadwrn 19 Tachwedd:

- 🎅 Diwrnod y Ceirw, Caerfyrddin

Sad 3ydd - Sad 24ain Rhagfyr (Dydd Sadwrn yn unig)

- 🎅 Trenau Stêm Hudolus Siôn Corn

Dydd Sadwrn 26 a Dydd Sul 27 Tachwedd:

- 🎅 Ffair Nadolig Dinefwr, Llandeilo

Sad 3ydd Rhagfyr

- 🎅 Parêd Ceirw Llanelli

Sad 10fed & Sul 11fed Rhagfyr

- 🎅 Ffair Crefft Nadolig, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymrullu



Tudalen y plant



Arwr yn glanio yn yr ysbyty

Mae arwr newydd yn helpu plant a theuluoedd sy'n bryderus ynghylch ymweliad ag ysbyty.

Mae Capten Gwella i'w weld mewn fideo sydd wedi'i lansio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu gwybodaeth i blant am yr hyn y gallant ddisgwyl o arhosiad mewn ysbyty, o'r triniaethau a phrofion posib, i'r cyfleusterau chwarae sydd ar y ward.

Dywedodd Yvonne Burson, Pennaeth Cyfathrebu: "Rydym yn ymwybodol bod plant yn teimlo'n bryderus ynghylch ymweliad ag ysbyty. Ar yr un pryd, rydym yn aml yn cael adborth hyfryd wrth deuluoedd ar sut y mae ein staff wedi helpu eu plant i deimlo'n gyffyrddus ac wedi rhoi gofal gwirioneddol dosturiol iddynt. Roeddem am 'ddangos' hyn yn digwydd er mwyn ceisio helpu plant i ddeall bod yr ysbyty yma i'w helpu, a bod modd chwarae yma hefyd."

i

Bydd y fideo, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gydag is-deitlau yn y ddwy iaith er mwyn bod yn hygyrch i blant a theuluoedd â nam ar y synhwyrau, yn cael ei hybu drwy lythrau apwyntiad, sgriniau digidol mewn ysbytai ac ar sianelu cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd.

Mae'r fideo i'w weld yma
www.bihyweldda.wales.nhs.uk/capteng

Cystadleuaeth

Mae cyfle i un enillydd lwcus gael sesiwn awr am ddim ar gyfer hyd at chwech o bobl mewn lôn fowlio yng nghystadleuaeth y rhifyn hwn.

Beth am lliwio llun o chi yn eich gwsg ysgol a danfon yn ôl i'r cyfeiriad isod

Yr Is-adran Gyfathrebu, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin SA31 1JP

Erbyn dydd Gwener, 2 Rhagfyr, 2016

Enillydd cystadleuaeth rhifyn diwethaf Newyddion Sir Gâr oedd Alanah Williams

Oed 10

Ysgol Gwmraeg Brynsierfel



Jermin Productions yn cyflwyno Dick Whittington

Rhagfyr 9, 10, 11, 13, 14, 15, 16, 17



A hoffech chi gael cyfle i ennill tocyn teulu (ar gyfer hyd at ddau oedolyn a dau blentyn) i weld Pantomeim Dick Whittington yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin?

Os felly, anfonwch eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif cyswllt i'r Tim Marchnata a'r Cyfryngau, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP neu e-bostiwch newyddionsirgar@sirgar.gov.uk erbyn dydd Gwener, 25 Tachwedd. Byddwn yn cysylltu â'r enillydd lwcus ar ôl y dyddiad hwn.

I archebu tocynnau i weld y sioe, ewch i www.theatrusirgar.co.uk neu ffoniwch y swyddfa docynnau: 0845 2263510.



Dyma'r tymor i fynd bowlio

Bowlio Xcel yr unig le i barti y Nadolig hwn!



bowlio - chwarae - parti - bwyta - gwneud gwabaniaeth

www.xcelbowl.co.uk

01267 225990

Cadw ein cymunedau'n ddiogel



Cynllun Pegasus



Mae'r heddlu'n annog pobl ag anawsterau o ran siarad sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt gyfathrebu i ymuno â Chynllun Pegasus Heddlu Dyfed-Powys.

Gwasanaeth ydyw a luniwyd i'w gwneud hi'n haws i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Heddlu Dyfed-Powys i gyfathrebu â ni'n gyflym a hawdd ar y rhifau 101 a 999. Nid oes tâl ar gyfer cofrestru â'r cynllun. Unwaith y bydd unigolyn wedi cofrestru ac mae ei gyfrinair o ddewis wedi'i gymeradwyo, mae'n aelod o'r cynllun.

Dywedodd y Prif Arolygydd Dyfed Bolton: "Mae'r Cynllun Pegasus yn hawdd iawn. Y cyfan sydd angen i alwr wneud yw dweud y gair 'Pegasus' a rhoi ei gyfrinair er mwyn cael ei adnabod gan ein trinwyr galwadau. Yna, bydd ganddynt fynediad at wybodaeth yr unigolyn hwnnw ac yn gwybod y ffordd orau o gyfathrebu a nhw."

Yn ogystal, rhoddir allweddell Pegasus i ddefnyddwyr gario. Os bydd swyddog/SCCH yn dod atynt ac maen nhw'n cael anhawster cyfathrebu ag ef/hi, gallant ddangos eu cerdyn a rhoi eu cyfrinair iddynt er mwyn caniatáu mynediad i'r swyddog i'w manylion.

Mae ffurflenni cais ar gyfer y cynllun ar gael gan eich Tîm Plismona Bro lleol. Ewch atynt pan fyddwch yn eu gweld yn y gymuned, neu gwnewch gais drwy'r Ganolfan Gyfathrebu ar 101 neu drwy'r adran gyngor ar ein gwefan www.dyfed-powys.police.uk/cy/advice/the-pegasus-scheme/

Dangoswch y cerdyn coch i yfed a gyrru



Mae Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor wedi ymuno â'r Scarlets y Nadolig hwn i atgoffa gyrwyr y gall hyd yn oed ychydig bach o alcohol olygu eu bod dros y terfyn.

Mae posteri a chardiau-z wedi cael eu cynhyrchu ac arnynt ffeithiau a ffigurau ynghylch yfed a gyrru ar canlyniadau.

Dengys y ffigurau fod oddeutu un o bob saith marwolaeth ar ffyrdd Cymru yn ymwneud â gyrwyr sydd â mwy o alcohol yn eu gwaed na'r hyn sy'n gyfreithlon.

Y gosb am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus o dan ddylanwad alcohol yw hyd at 14 blynedd yn y carchar a chael eich gwahardd rhag gyrru am o leiaf ddwy flynedd.

Os cewch eich dyfarnu'n euog o yrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau cewch eich gwahardd rhag gyrru am o leiaf 12 mis a dirwy heb gyfyngiad; hefyd gallech gael hyd at chwe mis yn y carchar a chofnod troseddol.

Dywedodd y Cynghorydd Hazel Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Drafnidiaeth: "Os ydych yn yfed a gyrru, rydych yn cynyddu'n sylweddol y perygl y byddwch yn lladd rhywun diniwed, neu chi eich hunan neu'r ddau/ddwy ohonoch."

Dilynwch ni ar Facebook

@CarmarthenshireRoadSafety, Twitter

@CarmsRoadSafety ac Instagram

@CarmarthenshireRoadSafety

Cofrestrwch ar gyfer Addewid Paul



Mae ymgyrch Addewid Paul, sef ymgyrch ar gyfer lleihau trais a thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn parhau â'i thaith o gwmpas ysgolion a cholegau yn Sir Gaerfyrddin.

Ymosodwyd ar Paul Pugh yn ffyrnig yn Rhydaman bron 10 blynedd yn ôl, ac fe ddioddefodd anafiadau a newidiodd ei fywyd.

Mae Paul yn gweithio'n agos â phartneriaid sy'n gysylltiedig â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir

Gaerfyrddin, ac yn ymweld â phobl ifanc yn eu harddegau i adrodd ei stori.

Dangosir ffilm ingol am yr ymosodiad iddynt, ac maen nhw'n cael cwrrd â Paul a gofyn iddo am effaith trais ar ei fywyd. Yn ogystal, maen nhw'n medru arwyddo #AddewidPaul, sef llw ar-lein lle y gall pobl ymrwymo i beidio byth â chyflawni na chymeradwyo trais (www.causes.com/paulspledge).

Ewch ar y bws i helpu pobl i ymdrin â'u problemau alcohol a chyffuriau

Mae Cynghorwyr wedi bod ar y bws i ddysgu am waith i helpu pobl i ymdrin â'u problemau alcohol a chyffuriau.

Daeth Drugaid Cymru â'i fws i Neuadd y Sir i alluogi cynghorwyr i ddod i wybod mwy.

Mae bws Drugaid yn cael ei ddefnyddio gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) ar gyfer oedolion a Choices, gwasanaeth Drugaid i bobl ifanc.

Mae mynd â'r gwasanaethau i'r lle y mae eu hangen yn galluogi'r sefydliadau i gyrraedd mwy o unigolion a darparu gwasanaethau ar gyfer ystod ehangach o bobl. Maent yn darparu ystod o sesiynau ataliol, ymyraethau lleihau niwed, addysg cymheiriaid, rhaglenni gwaith grŵp a chymorth y tu allan i oriau arferol i blant a phobl ifanc ac oedolion yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro trwy'r ddarpariaeth symudol hon.

Mae'r gwasanaeth Our Choices wedi mynd â'r bws i ysgolion a chlybiau ieuencid ledled y rhanbarth i ddarparu gwybodaeth



sy'n briodol i'w hoedran ar gyfer plant a phobl ifanc am alcohol, cyffuriau – gan gynnwys sylweddau seicoweithredol newydd a adwaenid yn flaenorol fel 'anterthau cyfreithlon' – a diodydd egni.

Mae DDAS hefyd yn defnyddio'r bws i godi ymwybyddiaeth y

gymuned o alcohol a chyffuriau ac mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ledu negeseuon ar gyfer ymgyrchoedd, er enghraifft Ymgyrch Ymwybyddiaeth o Hepatitis C. Mae gan y bws ardal breifat os oes ar unrhyw un angen sgwrs gyfrinachol gyda gweithiwr.

Cadw ein cymunedau'n ddiogel



Galw'n Gywir

Mae trigolion Sir Gaerfyrddin yn cael arweiniad ynghylch sut i alw'n gywir wrth gysylltu â'r heddlu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi lansio'r ymgyrch Galw'n Gywir, sy'n cynnwys tudalen 'Cysylltwch â Ni' newydd ar ein gwefan, i'w gwneud hi'n haws i aelodau o'r cyhoedd wybod pwy ddylent gysylltu â nhw wrth adrodd am faterion penodol, gan gynnwys cŵn crwydr, tipio anghyfreithlon, ymddygiad stwrlyd a phroblemau parcio.

Dywedodd y Prif Arolygydd Estelle Hopkin-Davies, Rheolwr Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu: "Ar gyfartaledd, mae Canolfan Gyfathrebu Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn tua 1,000 o alwadau y dydd gan aelodau o'r cyhoedd.

"Er ein bod ni'n annog pobl i adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau i'n helpu i gadw'n cymunedau'n ddiogel, rydyn ni'n aml yn derbyn nifer o alwadau nad ydynt yn faterion i'r heddlu.

"Rydyn ni'n annog pobl i feddwl mwy am sut allant alw'n gywir yn y dyfodol."

Er mwyn gwneud yr alwad gywir, ystyriwch y canlynol: **Mewn argyfwng – galwch 999**

Gwasanaeth 24 awr yw'r rhif 999 a dylid ond ei ddefnyddio yn ystod y sefyllfaoedd canlynol:

- Pan mae perygl i fywyd
- Pan mae trais yn cael ei ddefnyddio neu mae bygythiad trais uniongyrchol
- Pan mae trosedd yn digwydd
- Pan mae unigolyn wedi'i anafu'n ddifrifol
- Pan mae troseddwr wedi'i aflonyddu yn y lleoliad
- Pan mae angen ar gyfer presenoldeb heddlu yn syth, er enghraifft, pan mae trosedd ar fin cael ei chyflawni

Pan nad yw'n argyfwng - galwch 101

Dylid defnyddio'r rhif 101 i riportio mater plismona sy'n llai argyfyngus ac nid oes angen ymateb brys. Er enghraifft:

- Os yw'ch car wedi'i ddwyn
- Os yw'ch eiddo wedi'i ddifrodi
- Os ydych chi'n amau bod cyffuriau'n cael eu defnyddio neu werthu yn eich cymdogaeth
- Os ydych chi eisiau rhoi gwybodaeth i'r heddlu am drosedd yn eich ardal
- Os ydych chi eisiau gwneud ymholiad cyffredinol.

Awgrymiadau Safonau Masnach ar gyfer Siopa Nadolig

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin yn cynnig rhestr wirio ar gyfer siopa Nadolig:

- | | |
|--|---|
| <input checked="" type="checkbox"/> Wrth ddewis teganau, prynwch o siopau rydych yn gwybod amdany'n nhw'n unig; | <input checked="" type="checkbox"/> Os ydych yn prynu rhywbeth am fwy na £100, defnyddiwch eich carden gredyd i gael gwarchodaeth ychwanegol; |
| <input checked="" type="checkbox"/> Sicrhewch bob amser fod y nod 'CE' ar bob tegan a brynwch; | <input checked="" type="checkbox"/> Gofalwch am nwyddau ffug! Byddwch yn wylidwrus am nwyddau'n cael eu gwerthu am bris llawer is nag y byddech yn ei ddisgwyl fel arfer; |
| <input checked="" type="checkbox"/> Holwch a yw'r siop yn cynnig polisi dychwelyd nwyddau os ydynt yn anaddas; | <input checked="" type="checkbox"/> Cadwch eich derbynebau; |
| <input checked="" type="checkbox"/> Gwiriwch yr amserau danfon wrth siopa ar y rhyngwryd a sicrhewch fod cyfnod ailfeddwl rhag ofn ichi newid eich meddwl. Dylai'r masnachwr roi ei enw a'i gyfeiriad post llawn bob tro os ydych yn talu ymlaen llaw; | <input checked="" type="checkbox"/> Mae Gwasanaethau Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor yn y fan a'r lle dros y ffôn. Cysylltwch â nhw drwy ffôn 08454 040506 neu drwy fynd i'r wefan, www.citizensadvice.gov.uk . |
| <input checked="" type="checkbox"/> Byddwch yn ofalus wrth gytuno telerau credyd. Darllenwch y print mân a gofalwch y gallwch fforddio'r ad-daliadau; | |



Gofynnir i bobl ledled Sir Gaerfyrddin gefnogi ymgyrch y Rhuban Gwyn er mwyn ceisio atal trais yn erbyn menywod.

Diwrnod y Rhuban Gwyn yw diwrnod rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig er dileu trais yn erbyn

menywod ac mae'n cael ei gynnal ar 25 Tachwedd bob blwyddyn. Nod yr ymgyrch yw atal trais yn erbyn menywod a hyrwyddo perthnasoedd llawn parch. Mae'r ymgyrch yn cael ei harwain gan ddynion sy'n barod i sefyll yn gadarn yn erbyn trais tuag at fenywod a merched a bod yn esiampl dda yn eu cymuned.

Mae cynghorwyr arweiniol yn Sir Gaerfyrddin yn cefnogi'r ymgyrch drwy ymrwmo i beidio â chydoddef na chyflawni trais yn erbyn menywod a merched. Mae digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled y sir er mwyn i bobl ymuno a dangos eu cefnogaeth.



A hoffech chi gefnogi Ymgyrch y Rhuban Gwyn? Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i www.whiteribboncampaign.co.uk

Bod yn ddiogel ar-lein

Sicrhewch y bydd eich plant yn seiberddiogel os ydych chi'n rhoi llechen neu ffôn yn anrheg iddynt y Nadolig hwn.

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Get Safe Online yn annog rhieni a gwarcheidwaid i siarad â phlant am fanteision ac anfanteision y rhyngwryd a rhwydweithio cymdeithasol.

Pan mae'n cael ei ddefnyddio'n gywir, mae'n ffordd arbennig o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, ond gall niweidio plentyn hefyd.

Mae'r prif beryglon yn ymwneud â phlant yn siarad â rhywun dieithr neu'n dod yn gyfaill iddynt, seiberfwlio, cael eu twyllo a thwyll hunaniaeth.

Dywedodd y Prif Arolygydd Dyfed Bolton: "Dysgwch eich plentyn i ofalu eu bod nhw ond yn cyfathrebu â phobl maen nhw'n adnabod y gellir rhoi ffydd ynddynt, ac i beidio â datgelu gwybodaeth, megis eu cyfeiriad neu eu dyddiad geni, i unrhyw un ar-lein.

"Uwchlaw pob dim, sicrhewch eich plentyn ei bod hi'n iawn iddynt ddod atoch chi, neu oedolyn arall y gellir rhoi ffydd ynddynt, os ydynt yn teimlo dan fygythiad neu'n anghyfforddus ynghylch unrhyw beth maen nhw wedi gweld neu wneud ar y rhyngwryd."



Am ragor o gyngor ynghylch helpu'ch plentyn i aros yn ddiogel ar-lein, galwch heibio i getsafeonline.org/safeguarding-children/

**Dyddiadau
i'ch
Dyddiadur**

Pass Plus Cymru

Gorsaf Dân Rhydaman
14 Tachwedd
Gorsaf Dân Llanelli
12 Rhagfyr
Gorsaf Dân Caerfyrddin
9 Ionawr
Gorsaf Dân Rhydaman
13 Chwefror
Gorsaf Dân Llanelli
13 Mawrth

Beiciwr i Lawr Cymru

Gorsaf Dân Rhydaman
7 Chwefror
Gorsaf Dân Llanelli
14 Mawrth
Dragon Rider Cymru
Gorsaf Dân Rhydaman
13 Tachwedd
Gorsaf Dân Llanelli
5 Chwefror
Gorsaf Dân Caerfyrddin
5 Mawrth

Wythnos Diogelwch Ffyrdd

21 – 27 Tachwedd

Archwilio Seddi Ceir Plant

Parc y Scarlets
22 Tachwedd
3-6pm

I gael manylion pellach, ewch i sirgar.llyw.cymru/diogelwchffyrdd

Mae'r manylion i gyd yn gywir ar adeg eu hargraffu

Cymryd rhan yn eich Cymuned

Rhaglen Esgyn: Cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw mewn cartrefi di-waith. Mae'r lleoliadau yn Hywel Dda yn cynnwys bod yn borthor, arlwy, gwaith gweinyddol a chlercol, staff meddygol, electroneg feddygol, ystadau a nyrsio gofal iechyd.

www.hywelddahb.wales.nhs.uk

Angen cynorthwyrwyr arlwy ysbeidiol: Mae gennym gyfleoedd am swyddi achlysurol a thros dro i weithio yn ystod absenoldeb mewn Ysgolion drwy Sir Gaerfyrddin. Mae ein horiau gwaith yn ddelfrydol i gyd-fynd ag ymrwymadau teuluol a gwyliau ysgol.

www.sirgar.llyw.cymru

Diffoddwyr tân ar alwad: Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth nifer o swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad: Rhydaman, Cydweli, Caerfyrddin, Llandysul, Llanelli, Llanymddyfri, Llandeilo, Pont-iets a Henty-Gwyn.

www.mawwfire.gov.uk

Cofrestru fel gwirfoddolwr: Mae wastad gannoedd o gyfleoedd gwirfoddoli cyffrous a gwerthfawr ar gael ar draws ystod eang o grwpiau gwirfoddol a chymunedol ledled y sir yn ogystal â chyfleoedd pen arall y byd os oes chwant arnoch wirfoddoli'n rhyngwladol.

www.cavs.org.uk

Prentisiaethau Cyfoeth: "Cyfoeth" yw ein cynllun prentis sy'n darparu rhaglenni hyfforddiant trefnus o safon uchel: rhaglenni sy'n cyfuno dysgu yn y dosbarth â phrofiad gwaith gwirioneddol.

www.naturalresources.wales

Staff arlwy: Rydym ni'n chwilio am sêr gwasanaethau i gwsmeriaid i weithio gyda ni ar gampysau'r Drindod Dewi Sant yn Abertawe a Chaerfyrddin. Bydd y rôl achlysurol hon yn gweithio gyda'n hadran arlwy ragorol yn gweini staff a myfyrwyr â bwyd iachus o safon uchel

www.uwtsd.ac.uk

Ydy prentisiaeth yn gweddu i chi?

Cafodd rhai o fyfyrwyr Coleg Sir Gâr sy'n astudio ar gampws amaethyddol y Gelli Aur eu gwobrwyo yn y Sioe Frenhinol eleni.

Enillodd Aled Davies Wobr Myfyriwr y Flwyddyn Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2016 a Gwobr Deithio Gwili Jones. Cyflwynwyd y wobwr yn 2013 er cof am y diweddar Mr Gwili Jones a sefydlodd ei fusnes peiriannau amaethyddol ym Mheniel. Nod y wobwr yw annog dysgwyr i archwilio, astudio a gwerthuso gwahanol ddiwyllianau a systemau cynhyrchu a allai fod yn fuddiol yn eu maes gwaith.

Mae tri myfyriwr hefyd wedi elwa o Ysgoloriaeth Deithio Goffa Gareth Raw Rees NFU Cymru. Mae

Aled Davies, Mark Harries a Jordan Davies wedi derbyn cyfraniad ariannol tuag at daith astudio'r coleg i Seland Newydd, lle byddant yn archwilio amrywiol systemau ffermio a thechnegau rheoli glaswelltir.



Heuwch yr had i gael hyfforddiant amaethyddol yng Ngholeg Sir Gâr
01554 748179 -
mae cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael hefyd.

Gallwch ennill wrth dysgu

Mae 18 o bobl ifanc wedi dechrau prentisiaethau newydd gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

Yn ogystal ag ennill wrth ddysgu, mae'r prentisiaid yn datblygu sgiliau ymarferol ac yn paratoi ar gyfer byd gwaith, gyda chymorth staff profiadol mewn nifer o feysydd. Mae swyddogion yn cynorthwyo prentisiaid i ddysgu am gyfrifoldebau amrywiol y cyngor, gan eu lleoli mewn adrannau lle gallant chwarae rhan ac astudio ar gyfer ystod eang o gymwysterau gan gynnwys gweinyddu busnes, gwaith ieuencid, rheoli cefn gwlad, goleuo theatr a TG.

Buddsodwyd mwy nag £1miliwn mewn rhaglenni prentisiaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ac i lawer mae eu prentisiaethau'n arwain at gyflogaeth lawn-amser.



I gael rhagor o wybodaeth a chanfod pa gyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael yn y cyngor, ewch at y dudalen swyddi a gyrfaedd ar y wefan yn www.sirgar.llyw.cymru

1 Sir Gâr
Carmarthenshire

Mae Un Sir Gâr tîm o ymgynghorwyr sy'n cynnig cyngor a chymorth ynghylch cyfleoedd addysg, gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth, o fewn y Sir

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y rhain, anfonwch e-bost drwy ein gwefan www.unsirgar.co.uk

Ffoniwch 0800 9173 408 AM DDIM o linell dir, neu edrychwch ar Facebook (UnSirGarOneCarmarthenshire) neu Twitter @UnSirGar

1 yrhwb
thehub

Nod yr Hwb, sydd yn hen siop Burton ar Heol Stepney, Llanelli, yw gwneud bywyd yn haws i bobl sy'n chwilio am gyngor ynghylch:

cyfleoedd addysg, tai, gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae cyfrifiaduron sydd â mynediad i'r cyhoedd ar gael hefyd ar gyfer hyfforddiant, chwilio am swyddi a mwy...

Agored 9 - 5 Dydd Llun i Ddydd Iau a 9 - 4.30 Dydd Gwener

neu i gael rhagor o wybodaeth:

0800 9173 408 neu

www.unsirgar.co.uk